

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/2026

www.tancgc.gov.uk/cym/

This document is available in English

Fersiynau Amgen

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

Saesneg

This document is also available in accessible formats. If you would like this information in an alternative language or format, including audio, please contact us on 0370 6060699 or email: mail@mawwfire.gov.uk.

Arabeg

هذه الوثيقة متوفرة ايضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومه بلغة أخرى أو بشكل اخر، اضافة بطريقة مسموعة، المرجوا التواصل معنا عبر 03706060699 او عبر البريد الالكتروني : mail@mawwfire.gov.uk

Tsieinëeg

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

Nepaleg

यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल: *mail@mawwfire.gov.uk* मा सम्पर्क गर्नुहोस्।

Pwyleg

Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową: *mail@mawwfire.gov.uk*.

Pwnjabeg

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: mail@mawwfire.gov.uk."

Wrdw

یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں چاہتے ہیں تو ، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں:6060699 0370 یا ای میل : mail@mawwfire.gov.uk

Cyflwyniad 4

Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol 5

Ein Hymrwymiad i Wella 5

Dangosyddion 5

Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2025/2026.....8

Ein Perfformiad yn erbyn Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau Cymru Gyfan.....10

Ein Hamcanion Gwella a Llesiant 16

Amcan Gwella a Llesiant Un……..……17

Amcan Gwella a Llesiant Dau……..……20

Amcan Gwella a Llesiant Tri ..... ……..……23

Amcan Gwella a Llesiant Pedwar ..... ……..……..27

Amcan Gwella a Llesiant Pump ..... ……..…30

Amcan Gwella a Llesiant Chwech.....……..……35

Amcan Gwella a Llesiant Saith.....……...39

Amcan Gwella a Llesiant Wyth.....……43

Darganfod mwy. 46

Atodiad 1: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Datganiad Cynnydd……..……47

Atodiad 2: Diweddariad cynnydd ar Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/2026 Galluogwyr……..……..51

Atodiad 3: Straeon newydd da am waith a wnaed gan bob adran, rhwng 01 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026…….....55

Cyflwyniad

Rydyn ni'n falch o gyflwyno'r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer **2025/2026**.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth wedi perfformio yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant o fewn ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040.



Gweledigaeth y Gwasanaeth yw "darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru", a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy barhau i ymgysylltu â chymunedau, archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae sicrhau bod yr Amcanion Gwella a Llesiant yn CRhRC 2040 yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac o fewn y gyllideb, gan barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru ar yr un pryd, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwelliannau y mae'r Gwasanaeth wedi'u cyflawni ar gyfer staff a chymunedau dros y 12 mis diwethaf.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol - Erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth gyhoeddi ei Asesiad Perfformiad Blynyddol, sy'n rhoi gwybod am y cynnydd yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Gwasanaeth yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymunedau, staff, a budd-ddeiliaid yn deall y ffordd y mae'n asesu ac yn adrodd ynghylch ei gyflawniadau. Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant yn ystod 2025/2026.

Mae'r Asesiad Perfformiad hefyd yn gyfle i'r Gwasanaeth nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu a sut y byddant yn cael eu hymgorffori mewn prosesau cynllunio a gwella yn y dyfodol. Gallwch gael mynediad at y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC 2040) a Chynlluniau Strategol, Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau Gwella Blynyddol ac Asesiadau Perfformiad Blynyddol blaenorol ar y wefan allanol drwy ymweld â www.tancgc.gov.uk/cym.

Ein Hymrwymiad i Wella - Fel Gwasanaeth Cyhoeddus, rydyn ni'n gwybod ei bod yn ddyletswydd arnom i wella'n barhaus ar y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau. Mae CRhRC hirdymor 2040 yn atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau yn barhaus.


Dangosyddion - Mae'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar ein dangosyddion perfformiad statudol a sector. Mae'r tabl a'r graff canlynol yn rhoi trosolwg o'n perfformiad yn erbyn y dangosyddion statudol a sector hynny ar gyfer 2025/2026.

	Canolbarth a Gorllewin Cymru		**Gogledd Cymru**		**De Cymru**	
	2024/25	**2025/26 (dros dro)**	**2024/25**	**2025/26 (dros dro)**	**2024/25**	**2025/26 (dros dro)**
Nifer y Tanau yr Aethpwyd Atynt	2,951	3,141	1,804	2,043	5,408	6,177
Nifer y Galwadau Diangen yr Aethpwyd Atynt	5,083	4,756	3,264	3,209	9,430	7,608
Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr Aethpwyd Atynt	769	785	255	297	947	1,003
Galwadau Gwasanaeth Arbennig yr Aethpwyd Atynt	3,652	3,605	1,166	1,065	3,333	3,284
Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau	46	28	49	55	55	63


Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol	41	25	45	53	51	55
Canran o danau mewn anheddau wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynasant	85.46%	82.71%	87.01%	87.58%	85.92%	84.45%

Digwyddiad	**2025/ 2026**	**2024/ 2025**	**2023/ 2024**	**2022/ 2023**	**2021/ 2022**	**2020/ 2021**	**2019/ 2020**	**2018/ 2019**
Tanau	3,141	2,951	2,583	3,023	3,290	3,075	3,152	3,734
Gwrthdra wiadau ar y Ffordd	785	769	786	771	693	528	949	868
Galwadau Diangen	4,756	5,083	5,932	5,161	4,916	4,816	4,625	4,879
Galwadau Cyd-ymatebwyr	747	876	1,044	1,317	453	290	1,965	1,707
Galwadau Gwasanaeth Arbennig ac eithrio galwadau Cyd-ymatebydd a Gwrthdrawiad ar y Ffordd	2,858	2,776	2,809	2,546	2,521	2,088	2,518	2,254
Cyfanswm	12,287	12,455	13,114	12,818	11,873	10,797	13,209	13,442

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.



Math o ddigwyddiadau a fynychwyd fesul blwyddyn



	2025/2026	2024/2025	2023/2024	2022/2023	2021/2022	2020/2021	2019/2020	2018/2019	2017/2018	2016/2017	2015/2016	2014/2015	2013/2014	2012/2013
Tanau	3141	2951	2583	3023	3290	3075	3152	3734	3190	2933	3392	3491	3916	3245
Gwrthdrawiadau ar y ffordd	785	769	786	771	693	528	949	868	983	997	1079	1008	1133	1101
Galwadau diangen	4756	5083	5932	5161	4916	4816	4625	4879	4939	4489	4599	4464	4520	4521
Galwadau gwasanaeth arbennig ac eithrio galwadau cyd-ymatebwyr a galwadau gwrthdrawiadau ar y ffordd	2858	2776	2809	2546	2521	2088	2518	2254	2122	1926	1957	1650	2346	2182
Galwadau cyd-ymatebwyr.	747	876	1004	1317	453	290	1965	1707	2546	3765	2532	2303	1914	1677

Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2025/2026

Mae tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad ym meysydd penodol Lleihau Risg, Diogelwch Cymunedol, ac Iechyd y Gweithlu ac Iechyd Ariannol.

Isod ceir dadansoddiad o'n Dangosyddion Perfformiad Sector ar gyfer 2025/2026.

Dangosydd Perfformiad	2025/2026 Gwirioned dol	Cyfartaledd 2016/17 i 2020/21	Cyfartaledd 2021/22 i 2025/26	Newid Canran Cyfartalog 2016/17 i 2025/26
Cyfanswm yr holl danau bwriadol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	1,509	1,543	1,467	-4.9%
Cyfanswm yr holl danau damweiniol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	1,632	1,667	1,531	-8.1%
Cyfanswm yr holl danau mewn anheddau yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	428	539	454	-15.7%
Cyfanswm yr holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau	393	505	417	-17.3%
Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau fesul 10,000 o anheddau	35	34	37	8.2%
Cyfanswm y tanau mewn adeiladau annomestig fesul 1,000 adeilad annomestig;	142	197	158	-19.7%
Cyfanswm y marwolaethau tân fesul 100,000 o'r boblogaeth	4	6	6	0.0%
Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:	2	5	4	-24.0%

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:	1	0	0	0.0%
Cyfanswm yr anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau fesul 100,000 o'r boblogaeth	24	44	28	-35.5% 
Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:	19	35	21	-39.1% 
Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth	2	2	2	0.0%
Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan offer synhwyro tân awtomatig fesul **1,000 adeilad annomestig.**	322	1,496	1,128	-24.6% 
Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod fel % o'r holl danau mewn anheddau yr aethpwyd atynt	31.31%	42.32%	44.0%	3.9% 

Ein Perfformiad yn erbyn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan.

Mae lleihau nifer a difrifoldeb tanau mewn anheddau yn flaenoriaeth allweddol i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru. Adlewyrchir ein llwyddiant o ran cyflawni hyn yn glir yn y gostyngiad cyson yn nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae gan dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru nod cyffredin o gynnal tuedd hirdymor tuag i lawr yn nifer y:

- tanau mewn anheddau;
- anafiadau/marwolaethau yn sgil tanau mewn anheddau; ac
- anafiadau difrifol i bersonél tân sy'n mynd at danau mewn anheddau.

Mae'r Siarter yn cynnwys saith ymrwymiad unigol a wneir gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru i aelodau'r cyhoedd sef:

1. Arwain y ffordd o ran lleihau nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y cawn alwad 999 frys i fynd i dân mewn annedd.
3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym a mynd â'r cyfarpar priodol i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn dilyn tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau a dwyn pobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Rydyn ni wedi adolygu ein perfformiad mewn perthynas â holl ymrwymiadau'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau, ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:-

Ymrwymiad 1

Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.

Rydyn ni wedi ymrwymo i arwain y ffordd o ran cynnal tuedd tuag i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a marwolaethau/anafiadau cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2025/2026 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ynghylch sut y gallent atal tanau rhag dechrau yn eu cartref a sut y gallent gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gwaith atal yn cynnwys darparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i ddeiliaid tai, yn ogystal â rhoi sgwrs i blant a phobl ifanc mewn cyfnodau allweddol ar ddiogelwch tân.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Yn ystod 2025/2026 aethom allan at 393 o danau damweiniol mewn anheddau, a arweiniodd at farwolaeth 2 berson ac anafiadau i 19 o bobl eraill (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn). Hefyd, yn ystod 2025/2026 aethom allan at 35 o danau mewn anheddau a gychwynnwyd yn fwriadol, a arweiniodd at farwolaeth 1 person ac anafiadau i 2 berson arall (ac eithrio cymorth cyntaf ar y safle acarchwiliadau rhag ofn).

Mae'r duedd yn nifer y tanau mewn anheddau yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad graddol (ac eithrio 2016/2017 a 2021/2022). Cafwyd gostyngiad sylweddol rhwng 2016/2017 a 2024/2025 (28%).

Ymrwymiad 2:

Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999 brys drwodd i ni.

Mae ein cyfleuster rheoli tân brys ar gael o hyd bob awr o'r dydd bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o'r naill gyfleuster rheoli i'r llall pe bai tarfu difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad y rhoir gwybod amdano ac b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynd at y digwyddiad.

Yn 2025/2026, fe wnaethom ymdrin â 23,833 o alwadau 999 brys i gyd.

Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn gofyn am sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a allai, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal lle maen nhw, bod yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu'n wynebu anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgìl pwysig arall yw gallu gwybod pan fydd galwr yn cam-drin y system 999 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw hynny fel petai'n atal lleiafrif o bobl sy'n cadw'r llinellau 999 yn brysur ac yn dargyfeirio gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n berygl bywyd gwirioneddol. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian ac yn rhoi gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Mewn 11% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i fynd allan.

Ymrwymiad 3:
Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r cyfarpar cywir i ymdrin â nhw.

Ar ôl i ni ateb yr alwad 999 frys a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fynd allan i ddechrau at y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel a meddu ar y cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Yn 2025/2026 fe wnaethom ymateb i 11% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 45% o fewn 5-10 munud, 26% o fewn 10-15 munud ac 18% mewn dros 15 munud. Mae'r amseroedd ymateb hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio, felly gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân mewn annedd wedi digwydd, rydyn ni'n sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân gyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân â chyfarpar diogelu personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn mynnu eu bod yn ffit ac yn iach yn weithredol, ac rydyn ni'n sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu hailasesu a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydyn ni hefyd yn gwirio'n rheolaidd bod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn cyd-fynd â gweithdrefnau diffodd tân cymeradwy.

Rydyn ni'n cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2025/2026 aeth ein criwiau at 3,141 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth fynd i ddigwyddiadau gweithredol, cafodd 8 o staff gweithredol anaf. O'r 8 Anaf, cafodd 2 ei ystyried fel anaf "difrifol", a chafodd 6 eu hystyried yn "Fân" anafiadau o dan y Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR).

Yn 2025/2026 aeth ein criwiau at 3,141 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 8 aelod o staff yr ochr weithredol eu hanafu.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Ymrwymiad 4:

Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydyn ni'n arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau, gwybodaeth, offer diffodd tân, a'r cymorth rheoli cywir fel y byddant wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag amgylchiadau'r tân mewn annedd, beth bynnag yw'r amgylchiadau hynny.

Yn 2025/2026, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom allan atynt, cafodd 354 eu cyfyngu'n llwyddiannus o fewn yr ystafell lle cychwynasant, heb ledaenu ymhellach.

Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu hwnt i reolaeth y criwiau a aeth allan, megis pa mor hir y cymerodd hi i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân yr oedd yr annedd, rydyn ni'n dal i ystyried bod hwn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau cyfarpar ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

Ymrwymiad 5:

Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i helpu i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau yn dilyn tanau mewn anheddau. Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cefnogaeth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar y gymuned gyfan yn ogystal ag ar yr unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agos.

Am y rheswm hwn, nid yw rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fydd y tân wedi'i ddiffodd a phawb wedi'i ganfod.

Ym mhob achos, ymchwilir i achos y tân a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn o ran sut a ble y dechreuodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau arbennig, unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân, yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau dros gredu bod tân wedi'i ddechrau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd hyn yn cael sylw dilynol gyda'r Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannir gan nifer o denantiaid gwahanol, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad nodi bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd neu ymgyrch Diogelwch Cymunedol yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a thawelwch meddwl ar ffurf Archwiliad Diogelwch yn y Cartref am ddim.

Ymrwymiad 6:
Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.

Rydyn ni bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad fforensig, mwy manwl i ganfod achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bach o achosion y mae'r achos yn 'anhysbys'. Yn 2025/2026 cofnodwyd bod gan 22 o danau mewn anheddau achos anhysbys.

Os amheuir trosedd, bydd yr ymchwiliad i'r tân yn cael ei gynnal gyda'r Heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu drwgdybio o roi annedd ar dân yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig gam gweithredu sydd ar gael - er enghraifft os yw'r tân wedi ei gychwyn gan blentyn ifanc.

Yn 2025/2026 aethom allan at 428 o danau mewn anheddau, achanfuwyd bod 35 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.

Mewn rhai mathau o adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a'r ardaloedd a rennir yn destun rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am yr adeilad (megis y landlord neu reolwr yr adeilad) drefniadau diogelwch tân da ar waith. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyn y person cyfrifol, gyda'r posibilrwydd o garcharu a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydyn ni'n sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a risg y tramgwydd.

Yn 2025/2026 fe wnaethom gyflwyno 58 o Hysbysiadau Gorfodi a 15 Hysbysiad Gwahardd mewn perthynas ag adeiladau a fethodd â chydymffurfio â'r gofynion a geir yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Fe wnaethom ymdrin â 200 o Gŵynion Diogelwch Tân ac ymgymryd â 817 o Ymweliadau Archwilio a Gynlluniwyd.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Ymrwymiad 7:

Byddwn yn ceisio cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn y mae'n ei wneud. O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol.

Ein Hamcanion Gwella a Llesiant

Bob blwyddyn, fel rhan o'r broses cynllunio gwella, mae Amcanion Gwella a Llesiant yn cael eu hadolygu a'u datblygu. Mae'r Amcanion Gwella a Llesiant yn dweud wrth staff, cymunedau, a budd-ddeiliaid pa welliannau oedd yn mynd i gael eu gwneud yn ystod 2025/2026.

Datblygwyd wyth Amcan Gwella a Llesiant i leihau risg a gwella diogelwch cymunedau. Dyma'r amcanion hynny:



Amcan Gwella a Llesiant Un – Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.



Amcan Gwella a Llesiant Dau – Byddwn yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.



Amcan Gwella a Llesiant Tri – Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.



Amcan Gwella a Llesiant Pedwar – Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.



Amcan Gwella a Llesiant Pump – Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) a Diogelu (Diogelwch Tân Busnesau) yn rheolaidd i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.



Amcan Gwelliant a Llesiant Chwech – Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau er mwyn deall yr hyn maen nhw'n ei ddisgwyl gennym.



Amcan Gwella a Llesiant Saith – Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy.



Amcan Gwelliant a Llesiant Wyth – Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd a chyfarpar er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Amcan Gwella a Llesiant 1 – Diwylliant Sefydliadol





Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 1.1: Dylunio a gweithredu cynllun sefydliadol hirdymor gyda'r nod o feithrin gwelliant diwylliannol, gyda gwerthusiad parhaus o gynnydd ac effaith.

Cam gweithredu 1.2: Cynnal adolygiad o Safonau Proffesiynol a phrosesau mewnol cysylltiedig, gan ymgorffori unrhyw welliannau a nodwyd.

Cam gweithredu 1.3: Ymgorffori'r strategaeth llesiant a'r cynllun gweithredu llesiant i gefnogi iechyd a llesiant ein staff a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

Cam gweithredu 1.4: Adolygu cylch oes gweithwyr a gyrfaoedd i wella cyfleoedd recriwtio, cadw a datblygu i staff. Bydd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- Denu, recriwtio a chadw.
- Cynefino.
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu, gan gynnwys llwybrau sefydliadol.
- Arfarnu staff a rheoli perfformiad.

Datganiad cynnydd Amcan Un ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Parhawyd gwneud cynnydd ar daith ddiwylliannol y Gwasanaeth yn dilyn penodi Senseia, arbenigwr diwylliannol allanol. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau proses ddilysu i gefnogi Senseia i ddeall y cyd-destun y tu ôl i adroddiad Crest. Cyflwynwyd cyfres o raglenni tair diwrnod ar gyfer arweinwyr ar draws y Gwasanaeth, wedi'u cynllunio i newid safbwyntiau, meithrin gobaith, a chodi ymwybyddiaeth o ddeinameg seicolegol yn y gweithle. Yn ogystal, cychwynnwyd gwaith datblygu cynllun sefydliadol hirdymor a'i drefnu ar gyfer cam ailadeiladu taith ddiwylliannol y Gwasanaeth, a fydd yn dechrau yn Chwarter 1 cyfnod adrodd 2026/2027.
- Dechreuwyd adolygiad o Safonau Proffesiynol sy'n ymwneud â disgyblaeth, a disgwylir i'r canfyddiadau gael eu rhannu â sefydliad allanol i'w hadolygu'n annibynnol cyn iddynt symud ymlaen trwy drefniadau llywodraethu mewnol y

Gwasanaeth. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynghylch ehangu cwmpas yr adolygiad i gynnwys ystyriaethau lles a llesiant.

- Yn ogystal, fe wnaeth cynrychiolwyr o'r adran Adnoddau Dynol ymweld â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan am fewnwelediad i'r gwersi a ddysgwyd yn dilyn eu hadolygiad ac i archwilio ymhellach opsiynau ymyrraeth gynnar amgen, gan gynnwys bylchau cyfryngu a chymorth lles.
- Archwiliwyd opsiynau meddalwedd rheoli achosion gyda rhiant-gwmni PeopleXD, The Access Group, i wella cywirdeb data a galluoedd adrodd.
- Parhaodd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff y Gwasanaeth hefyd i symud ymlaen yn dda, gyda dros ddwy ran o dair o'r staff wedi cwblhau'r broses.
- Lansiwyd y Strategaeth Llesiant a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig ym mis Medi 2025, gan atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i ymgorffori llesiant ar draws y sefydliad a gwella cymorth a mynediad ar gyfer staff.
- Gwnaed cynnydd mewn perthynas â chaffael darparwr Buddiannau Iechyd.
- Cynhaliwyd gweithgareddau 'Diwrnod Amser i Siarad' ym mis Chwefror ac roeddent yn cynnwys Paned Dydd Iau, lle lansiwyd y Canllaw Poced Llesiant newydd.
- Daeth y broses recriwtio i ben ar gyfer rolau Cynghorydd a Chydlynydd Iechyd Meddwl a Llesiant, gydag ymgeiswyr llwyddiannus wedi'u penodi.
- Dechreuodd gwaith gyda'r adran Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol i gefnogi hyfforddiant iechyd meddwl. Sefydlwyd partneriaeth cyfnod cynnar gyda Gyrfa Cymru i roi adnoddau a chefnogaeth ychwanegol i reolwyr.
- Sefydlwyd Gweithgor Recriwtio, a chynhaliwyd ymarferion meincnodi i nodi mentrau recriwtio a ddefnyddir gan Wasanaethau Tân ac Achub eraill.
- Archwiliwyd cysyniad efelychu Rhithrealiti i roi mewnwelediad realistig i ymgeiswyr i rolau'r ochr weithredol.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r Weithdrefn Recriwtio i hyrwyddo tryloywder, gan gynnwys rhannu cwestiynau cyfweliadau yn gynnar a meini prawf llwyddo/methu mwy eglur. Dechreuwyd adolygiad o'r Gweithdrefnau Adleoli a Dyrchafiad hefyd.
- Gwerthuswyd dwy system recriwtio, gan alluogi ymgeiswyr i gynnal proffiliau ymgeisio ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.
- Cwblhawyd adolygiad llawn o'r broses arfarnu, gan gynnwys arolwg staff ar draws y gwasanaeth, dadansoddiad tueddiadau, meincnodi, a datblygu cynnwys newydd trwy weithgor.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod


- Ailsefydlu'r Gweithgor Strategaeth Llesiant o fis Ebrill 2026, gyda'r bwriad o ehangu'r aelodaeth ar draws adrannau a rhanbarthau.
- Archwilio, dilysu a phrofi system TGCh addas ar gyfer cwblhau arfarniadau staff.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Sut y cyfrannodd Amcan Un at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 1 - *Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.*	Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern, trwy esblygu yn unol â heriau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn datblygu staff, darpariaethau lles, technoleg a phartneriaethau cymunedol yn helpu'r Gwasanaeth i baratoi ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg a	Bydd cynllunio'r gweithlu yn effeithiol yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth y bobl iawn wedi'u recriwtio a'u hyfforddi, yn gweithio yn y lleoliadau cywir i ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf i'w gymunedau. Bydd hefyd yn sicrhau bod arferion recriwtio a datblygu ac arferion gwaith yn esblygu i ddiwallu anghenion newidiol y cymunedau.	Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol a llesiant yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithio'n gydlynol â sefydliadau partner a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at newidiadau cymdeithasol a gwella canlyniadau i gymunedau.	Bydd gwella diwylliant sefydliadol a llesiant yn parhau i gefnogi rhannu arfer da ar draws sefydliadau a sectorau i sicrhau mai dim ond yr arferion gorau o ran pobl sy'n cael eu gweithredu.	Mae ymgysylltu â'r gweithlu, ein partneriaid ac asiantaethau eraill ynglŷn â'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i wasanaethu ein cymunedau yn well yn rhan annatod o adrannau Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth.

Amcan Gwella a Llesiant Dau – System Dyletswydd Ar Alwad.





Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 2.1: Cynnwys ein holl staff mewn ymchwil i wella arferion gweithio a hyrwyddo diwylliant gweithlu cwbl gynhwysol.

Cam gweithredu 2.2: Nodi'r gwelliannau sydd eu hangen i wella ein system Dyletswydd Ar Alwad.

Cam gweithredu 2.3: Gwerthuso'r gwelliannau sydd wedi'u gweithredu er mwyn deall eu heffeithiolrwydd.

Datganiad cynnydd Amcan Dau ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Cynnydd yn yr argaeledd cyffredinol ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026, gyda gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn Rhanbarthau'r De (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot).

All Pumps

FY	Northern	Southern	Western	Total
2020-21	96.7%	84.4%	96.5%	94.9%
2021-22	91.7%	68.7%	90.0%	87.9%
2022-23	88.7%	65.1%	86.9%	84.7%
2023-24	87.4%	59.8%	87.1%	83.5%
2024-25	89.3%	67.6%	88.2%	85.9%
2025-26	90.5%	74.3%	88.3%	87.4%



- Cynhaliwyd y gynhadledd Ar Alwad ar 28 Ebrill 2025 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol. Gwnaed trefniadau hefyd ar gyfer y gynhadledd Ar Alwad sydd wedi'i threfnu ar gyfer 26 Ebrill 2026.
- Treialwyd cyfweliadau Aros yn Rhanbarth y Gogledd, gan alluogi cydweithwyr Ar Alwad i roi adborth uniongyrchol ar gynnydd o ran y gwelliannau sydd wedi'u gweithredu.
- Cafodd data o gyfweliadau ymadael ei gasglu i nodi patrymau a llywio meysydd ffocws yn y dyfodol.
- Cyflwynwyd cyfanswm o 53 o fentrau recriwtio yn ystod y cyfnod adrodd, gan ganolbwyntio ar orsafoedd sy'n wynebu'r heriau recriwtio mwyaf arwyddocaol.
- Dechreuwyd gwaith ar adolygiad o Fodiwl B, gan ganolbwyntio ar leihau'r effaith ar ymgeiswyr Ar Alwad a lleihau eu hamser i ffwrdd o'u prif gyflogaeth.
- Archwiliwyd cyfleoedd i annog staff Llyfr Gwyrdd (staff cefnogol) i ymuno â'r system dyletswydd Ar Alwad, gan gynnwys datblygu contract deuol sy'n cynnig manteision penodol i weithwyr Llyfr Gwyrdd sydd hefyd yn Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.
- Datblygwyd papur i gefnogi gwelliannau i dâl am wyliau banc ar gyfer staff Ar Alwad.
- Adolygwyd ac adnewyddwyd deunyddiau recriwtio corfforaethol, gan gynnwys cyflwyno taflenni cyflogwyr a gweithwyr newydd i gefnogi ymgysylltiad gan Eiriolwyr Recriwtio a thimau Rhanbarthol.
- Datblygwyd fideos cyfweliadau diffoddwyr tân Ar Alwad gan yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes fel rhan o negeseuon cadarnhaol parhaus, gan dynnu sylw at fanteision y rôl Ar Alwad a chydnabod y gwerth y mae'n ei ddwyn i'r Gwasanaeth.
- Cyflwynwyd parêd cwblhau hyfforddiant Ar Alwad yn dilyn treial llwyddiannus yn Rhanbarth y Gogledd ym mis Chwefror 2026.
- Cymeradwywyd cyflwyno tîm cefnogol Ar Alwad gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ar ôl cwblhau'r Rhaglen Gwella Ar Alwad ym mis Mawrth 2026. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu rôl Rheolwr Gorsaf a Swyddog Gweinyddol.
- Cyflwynwyd taliadau am gyrsiau ar gyfer Criw Rheoli, gyda chytundeb ar waith ar gyfer taliad 8 awr i'w wneud ar ôl cwblhau aseiniadau System Rheoli Digwyddiadau.
- Prynwyd system feddalwedd i gefnogi argaeledd, recriwtio a defnyddio sgiliau Ar Alwad (OARS), sy'n galluogi'r Gwasanaeth i ddefnyddio data yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â heriau critigol mewn recriwtio, amrywiaeth a chynllunio'r gweithlu.
- Cynhaliwyd treial yng Ngorsaf Dân Rhaeadr Gwy ar gyfer gyrrwr, nad yw'n gwisgo offer anadlu.
- Mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), datblygwyd rhaglen arweinyddiaeth diffoddwyr tân. Fel rhan o'r rhaglen, cwblhaodd myfyrwyr y cwrs hyfforddiant cychwynnol Ar Alwad, gan ganiatáu iddynt gynnig darpariaeth yng ngorsafoedd y Gwasanaeth mewn ardaloedd lle roedd angen capasiti ychwanegol.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Cynnal y Gynhadledd Ar Alwad, bwrw ymlaen â digwyddiadau gwerthfawrogi teuluoedd, gweithredu'r canfyddiadau o Adroddiad Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, cryfhau cefnogaeth drwy'r Tîm Cefnogol Ar Alwad a chyfweliadau aros, gwella tâl ac amodau (gan gynnwys taliadau am Wyliau Banc a thaliadau gweinyddol, gwyliau pro-rata a thaliadau cydnabyddiaeth).
- Ymgorffori newidiadau system megis y system a fydd yn cymryd lle Rappel, cynyddu ymgysylltu â chyflogwyr, a pharhau ag ymweliadau wyneb yn wyneb rheolaidd â gorsafoedd, wrth werthuso gwelliannau'r Rhaglen Gwella Ar Alwad a chynllunio ar gyfer mentrau yn y dyfodol gan gynnwys cynhadledd 2027.

Sut y cyfrannodd Amcan Dau at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 2 - *Byddwn yn parhau i fod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.*	Mae gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd Ar Alwad yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn fwy parod i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol, trwy ymateb yn effeithiol a diogelu cymunedau. Mae hefyd yn sicrhau gweithlu cynaliadwy er mwyn parhau i wasanaethu cymunedau.	Bydd gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd ar Alwad yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i weithredu i atal problemau rhag cynyddu drwy gael system Dyletswydd ar Alwad effeithlon ac effeithiol sy'n sicrhau cefnogaeth brydlon i gymunedau.	Bydd gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub a chyrff sector cyhoeddus eraill i wneud gwelliannau i'r system dyletswydd Ar Alwad yn helpu i sicrhau canlyniadau parhaol i gymunedau.	Mae dull cydweithredol gyda staff a phartneriaid allanol yn helpu i gael gwared ar rwystrau i heriau recriwtio a chadw personél Ar Alwad, ac yn cynorthwyo i adeiladu partneriaethau cryf.	Mae cynnwys staff yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau Ar Alwad yn helpu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben a gall y safbwyntiau a'r adborth a gesglir ddylanwadu ar newid cadarnhaol.

Amcan Gwella a Llesiant Tri – Gorsafoedd Tân.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 3.1: Adolygu ein sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth.

Cam gweithredu 3.2: Adolygu lleoliadau gorsafoedd tân i adlewyrchu'r newid mewn demograffeg a risg gymunedol.

Cam gweithredu 3.3: Adolygu a gwerthuso'r ffordd y mae ein gwasanaethau atal a diogelu yn cael eu darparu.

Cam gweithredu 3.4: Cynnal a gwella lechyd a Diogelwch yn barhaus ar gyfer ein personél, ein hasedau, a'n gweithleoedd.

Cam gweithredu 3.5: Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli halogyddion a gwreiddio'r rhain o fewn y Gwasanaeth.

Datganiad cynnydd Amcan Tri ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Dechreuwyd gwaith i adolygu sgiliau arbenigol ar draws y rota TAC, gan ganolbwyntio ar gynnal cymhwysedd a defnydd yr ochr weithredol.
- Cynhaliwyd asesiad i ddeall y defnydd o swyddogion 42 awr a sut y mae eu sgiliau yn ategu galluoedd presennol yr ochr weithredol gydag adolygiad llinell sylfaen wedi'i gyflwyno i Fwrdd Strategaeth yr Ochr Weithredol i'w ystyried ym mis Ebrill.
- Cynhaliwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Achub â Llinell, a drafftiwyd papur dilyniant opsiynau i'w ystyried a'i benderfynu, gan gynnwys cyflwyno pedair gorsaf uwch Lefel 2.
- Crëwyd papur strategaeth tanau gwyllt drafft a'i gyflwyno i'r Gweithgor Tanau Gwyllt i'w ystyried a dewis opsiwn. Roedd yr opsiynau yn cynnwys archwilio cyflwyno 'galluogrwydd llosgi' neu dîm i ddarparu gallu ymateb terfynol, gan alluogi dull haenog, y gellir ei ehangu yn unol â'r anghenion, o ymdrin â digwyddiadau tanau gwyllt.
- Cynhaliwyd ymchwil, adolygiad ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid mewn perthynas â darpariaeth Datblygu Pobl a Datblygiad Sefydliadol y Gwasanaeth er mwyn datblygu atebion ystwyth, amlbwrpas sy'n cyd-fynd â'r rhaglen gyfalaf amnewid cerbydau.
- Adolygiad o'r Cynllun Thematig presennol, gan gydnabod bod angen ehangu'r Cynllun Thematig i gynnwys sgiliau a chyfraniadau rolau Llyfr Gwyrdd a Llyfr Llwyd.

- Cynhaliwyd adolygiad o drefniadau partneriaeth gan yr adran Diogelwch Cymunedol i gryfhau cyflwyno Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref i gymunedau risg uchel ac agored i niwed, yn unol â chyllid Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer synhwyro mwg a mesurau cymorth ehangach.
- Cyflwynodd y Tîm Diogelwch Tân Busnesau y fenter Diogelwch Tân Busnesau i griwiau'r ochr weithredol, gan eu galluogi i nodi'n rhagweithiol risgiau diogelwch tân yn eu hardaloedd ac, yn ei dro, gwella diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd.
- Cynhyrchwyd map risg gan ddefnyddio Power BI sy'n cynorthwyo nodi 'ardaloedd' risg yn effeithiol.
- Yn dilyn tanau yn Ysbyty Southampton ac yn Crans-Montana, y Swistir, anfonwyd gohebiaeth i bob ysbyty wedi'i gofnodi, yn atgyfnerthu cyfrifoldebau statudol, yr angen am weithdrefnau gwacáu cyfredol, a sicrhau bod y wybodaeth ddiogelwch tân y mae'r Gwasanaeth yn ei dal yn parhau i fod yn gywir.
- Cynhaliwyd cyfarfod Cymru Gyfan i drafod rheoli halogyddion. Cafodd pob Gwasanaeth Tân ac Achub y dasg o gynhyrchu asesiad o'i sefyllfa bresennol, gyda'r nod o sefydlu llinell sylfaen gyson ledled Cymru a nodi unrhyw fylchau o ran darpariaeth, adnoddau neu alluogrwydd.
- Parhaodd y gwaith o weithredu'r system rheoli iechyd a diogelwch ar-lein, Evotix Assure. Mae'r feddalwedd wedi'i chynllunio i wneud cydymffurfiaeth gweithgarwch â rheoliadau iechyd a diogelwch yn haws ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor Cynllunio, Gwneud, Gwirio a Gweithredu.
- Aeth y broses Asesu Risg newydd yn fyw ym mis Ebrill 2025 gyda holl Asesiadau Risg y Gwasanaeth wedi'u ffurfioli'n Asesiadau Risg generig, gan felly lleihau cyfanswm yr Asesiadau Risg ar draws y Gwasanaeth.
- Cwblhawyd y prosiect Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), a dosbarthwyd canllawiau wedi'u diweddaru a'u cyhoeddi ar Insight.
- Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y digwyddiadau / damweiniau fu bron â digwydd a adroddwyd, oherwydd cyfarpar nad oedd wedi'u storio'n gywir ar beiriannau tân, cynhaliwyd adolygiad o gyfarpar ar beiriannau tân, gyda'r nod o gael rhestr cyfarpar safonedig.
- Cynhaliwyd treial gyda'r adran Darparu Hyfforddiant i hyfforddwyr Offer Anadlu yn ystod ymarferion tân byw gan ddefnyddio dillad isaf Enduro.
- Datblygwyd Ops 23b – Ffurflen Cofnod Amlygiad ar gyfer halogyddion tân i alluogi diffoddwyr tân i gofnodi amlygiad i lefelau sylweddol o halogyddion, gan gefnogi gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o risgiau cysylltiedig.
- Ymgorfforwyd cwestiynau penodol sy'n ymwneud â rheoli halogyddion mewn canllawiau sicrwydd gweithredol i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sesiynau hyfforddi. Roedd y cynydd hwn mewn ffocws yn sicrhau bod swyddogion yn monitro y sefyllfa yn weithredol yn ystod ac ar ôl digwyddiadau, gan hyrwyddo cadw at arfer gorau. Ar ben hynny, cafodd cwestiynau ychwanegol eu hintegreiddio i raglenni archwilio gorsafoedd y Gwasanaeth i ddarparu haen ychwanegol o sicrwydd, gan gynnwys craffu ar storio Offer Gwarchod Personol yn briodol pan nad yw'n cael eu defnyddio.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Cafodd bagiau cit personol eu caffael yn dilyn argymhelliad gan adroddiad Prifysgol Swydd Gaerhirfryn a gomisiynwyd gan Undeb y Brigadau Tân.
- Cwblhawyd Proffiliau Risg Gorsafoedd a'u rhannu ar dudalen Insight y Gwasanaeth.


Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Parhau i adolygu sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth.
- Defnyddio'r map risgiau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio Power BI i nodi 'ardaloedd' risg yn effeithiol a'r unigolion hynny sy'n byw mewn cymunedau sy'n rhan o'r categorïau mwyaf agored i niwed, sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn celcio, neu'n defnyddio cyffuriau ac alcohol, i ganfod yr ymyriadau mwyaf addas yn effeithiol.
- Cwblhau adolygiad o'r cyfarpar ar beiriannau tân, gyda'r nod o gael rhestr cyfarpar safonedig ar waith ac adolygu'r math o gyfarpar sy'n cael eu cario ar beiriannau.
- Parhau i fonitro datblygiadau allweddol gyda halogyddion, megis y cynnydd sy'n cael ei wneud yn genedlaethol a chan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.
- Deall Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2026 diwygiedig a'i integreiddio yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 y Gwasanaeth.

Sut y cyfrannodd Amcan Tri at y Pum Ffordd o Weithio.

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 3 - *Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.*	Mae adolygu'r risgiau o fewn cymunedau yn helpu i nodi tueddiadau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cynorthwyo i ddatblygu strategaethau hirdymor a buddsoddi mewn galluoedd yn y dyfodol i amddiffyn cymunedau.	Mae deall risg gymunedol yn galluogi datblygu gwasanaethau atal a diogelu. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda chefnogi arferion gweithredol mwy diogel a nodi risgiau staff gan alluogi ymyrraeth gynnar.	Mae'n cefnogi cynllunio ar draws sectorau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed neu gymunedau risg uchel.	Mae cydweithredu yn helpu i gael cyd-ddealltwriaeth o risg, sy'n helpu i ddatblygu atebion cydgysylltiedig, a chyfuno arbenigedd, data ac adnoddau, gan leihau unrhyw ddyblygu ymdrech.	Mae cynnwys staff a chymunedau wrth adolygu sgiliau arbenigol a lleoliadau gorsafoedd tân yn sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu nodi a'u deall, gan ganiatáu i randdeiliaid deimlo'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir a chyfrannu at eu siapio.

Amcan Gwella a Llesiant Pedwar – Gweithrediadau.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 4.1: Adolygu ein trefniadau darpariaeth frys yn unol â risgiau cymunedol.

Cam gweithredu 4.2: Adolygu'r ffordd yr ydym yn staffio ein gorsafoedd tân.

Cam gweithredu 4.3: Gweithredu technegau a thactegau diffodd tân newydd yn unol ag arweinwyr y sector.

Cam gweithredu 4.4: Archwilio cyfleoedd i edrych ar anfon allan deinamig o'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd.

Cam gweithredu 4.5: Gweithredu system newydd anfon allan i ddigwyddiadau brys, gan ddefnyddio technoleg newydd.

Datganiad cynnydd Amcan Pedwar ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Cynhaliwyd adolygiad o ddogfen Asesiad Strategol o'r Amgylchedd Allanol (SAEE) y Gwasanaeth i nodi'n gywir ffactorau macro economaidd a allai effeithio ar gyfeiriad strategol y Gwasanaeth yn y dyfodol. Fe wnaeth nodi a dadansoddi'r ffactorau hyn lywio cynllunio strategaeth effeithiol i gefnogi cyflawni amcanion yn y dyfodol.
- Cwblhawyd Proffiliau Risg Gorsafoedd ar gyfer 2024 a 2025 a'u huwchlwytho i'r dudalen Insight.
- Adolygwyd a diweddarwyd yr Egwyddorion Arweiniol ar gyfer y system shifftiau 2-2-4 a Chriw Dydd Hyblyg (FDC).
- Archwiliwyd peilot ar gyfer y system Criw Dydd Hyblyg gyda Gorsafoedd Tân Rhydaman, Aberdaugleddau, a Phontardawe. Cytunwyd dechrau treial 12 mis yng Ngorsafoedd Tân Rhydaman ac Aberdaugleddau ym mis Ebrill 2026. Nod y treial yw ymgorffori mwy o hyblygrwydd yn y system ar gyfer staff a'r Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r Rota Swyddogion Tactegol (TOR), gan archwilio gofynion cymhwysedd a sicrwydd gweithredol i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni'r ddau.

- Parhawyd gweithredu canlyniadau ac argymhellion ar ôl cael adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru.
- Dechreuwyd proses dendro i gaffael pibellau dŵr 22mm a changhennau llyfn ar gyfer peiriannau llinell gyntaf.
- Gwnaed cynnydd wrth bontio o drefniadau presennol y Cynllun Thematig i fodel sy'n cyd-fynd â Chyfarwyddyd Gweithredol Cenedlaethol (NOG), wedi'i ategu gan sefydlu gweithgor pwrpasol i yrru gweithredu.
- Parhaodd y gwaith ar Gam 2 yr adolygiad o Ddarparu Hyfforddiant a Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan gynnwys datblygu Egwyddorion Arweiniol y Model Staffio Hyblyg.
- Ail-fuddsoddwyd arbedion o Gam 1 yr adolygiad, gan gynnwys ariannu rôl Arloeswr Digidol Gradd 6 ychwanegol ac adlinio swydd Gradd 4 bresennol. Recriwtiwyd rôl brentisiaeth hefyd i gefnogi gwaith PDR Pro a XVR, gan gyfrannu at agenda digideiddio ehangach y Gwasanaeth.
- Sicrhawyd cyllid drwy'r Gronfa Wrth Gefn Diogelwch Diffodd Tanau i ddatblygu rig mapio dŵr sy'n benodol i'r Gwasanaeth.
- Cyflwynwyd adnoddau a deunyddiau ychwanegol, gan gynnwys atalyddion mwg a chyfarpar mapio dŵr.
- Datblygwyd datganiad dull ar gyfer diffodd tanau yn yr amgylchedd adeiledig a'i symud ymlaen trwy brosesau llywodraethiant mewnol y Gwasanaeth.
- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu pecynnau hyfforddi Cymru Gyfan ar gyfer diffodd tanau adrannol yn unol â'r model cwadrant. Dyrannwyd adnodd pwrpasol i'r adran Darparu Hyfforddiant i gefnogi'r gwaith cwblhau, gan sicrhau cysondeb ar draws tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru.
- Diweddarwyd yr holl Nodiadau Digwyddiadau Gweithredol i gyd-fynd â'r pecynnau hyfforddi newydd, gan gefnogi pontio llyfn i dactegau diffodd tanau adrannol diwygiedig. Dechreuwyd adolygiad ehangach hefyd i sicrhau bod yr holl Nodiadau Digwyddiadau Gweithredol yn gyson â'r gyfres lawn o ddatblygiadau hyfforddiant.
- Parhaodd y Gwasanaeth i gael ei gynrychioli ar Grŵp Hyfforddiant a Chyfarpar Gweithredol (OTEG) Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, lle gwnaed cynnydd tuag at gyflwyno fframweithiau cenedlaethol safonedig ar gyfer sgiliau critigol o ran risg, gan gynnwys tynnu'n rhydd.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o'r achos busnes Rheoli Tân ar y Cyd i'w ystyried gan Heddlu De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Parhaodd cynnydd ar brosiect amnewid RAPPEL, gan gynnwys datblygu dwy fanyleb: un ar gyfer meddalwedd ac un ar gyfer caledwedd.
- Defnyddiwyd menter a noddir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Platfform CYD, gyda sesiwn blwch tywod wedi'i chynnal ym mis Hydref 2025 i gyd-ddatblygu a mireinio'r Fanyleb Seiliedig ar Ganlyniadau (OBS). Roedd hyn hefyd yn darparu gofod cydweithredol a chanolfan ragoriaeth ar gyfer cymunedau caffael a masnachol ledled Cymru.
- Archwiliwyd cyfleoedd i gaffael platfform GoodSAM i wella anfon allan.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Adolygiad o Egwyddorion Arweiniol y drefn Criw Dydd Hyblyg (FDC).
- Adolygu'r Rota Swyddogion Tactegol (TOR), gan archwilio'r gofynion cymhwysedd a'r elfennau sicrwydd gweithredol, i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni'r ddau.
- Parhau i roi canlyniadau ac argymhellion ar waith ar ôl cael adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru.
- Parhau i symud ymlaen gyda chyflwyno system anfon allan newydd i ddigwyddiadau brys.

Sut y cyfrannodd Amcan Pedwar at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 4 - *Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.*	Mae adolygu'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn helpu i baratoi ar gyfer risgiau yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn hyblyg a'i fod yn gallu addasu i fodloni gofynion newidiol cymunedau.	Gall adolygu trefniadau darpariaeth frys a'r ffordd y mae gorsafoedd tân yn cael eu staffio helpu i gefnogi ymyriadau cynnar a gall arwain at lai o ddigwyddiadau trwy ddefnydd gwell o ddata atal.	Gall unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau olygu gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod gwasanaethau cydgysylltiedig yn cael eu darparu a lleihau unrhyw ddyblygu ymdrech.	Gall cydweithio ag asiantaethau partner i fynd i'r afael â gofynion newidiol cymunedau arwain at ganlyniadau gwell a chreu perthnasoedd cryf gydag asiantaethau partner.	Mae cynnwys cymunedau yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn adlewyrchu anghenion lleol, gan gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd a chynhwysiant. Mae cynnwys staff a chyrff cynrychioliadol yn helpu i lunio trefniadau diogel, effeithiol y gall staff eu cyflawni yn hyderus.

Amcan Gwella a Llesiant Amcan Pump – Atal a Diogelu.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 5.1: Newid y ffordd rydym yn ymateb i weithrediadau larwm tân awtomatig mewn adeiladau masnachol.

Cam gweithredu 5.2: Darparu ymyriadau diogelwch allweddol i blant a phobl ifanc canolbarth a gorllewin Cymru, drwy ddull cydweithredol wedi'i dargedu sy'n bodloni anghenion amrywiol y gymuned.

Cam gweithredu 5.3: Darparu ymyriadau tanau gwyllt a llosgi bwriadol sy'n darparu gwerth cymunedol go iawn wrth adeiladu ar wybodaeth a phrofiad ein partneriaid wrth ddelio â'u heffeithiau, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Cam gweithredu 5.4: Archwilio opsiynau i roi newidiadau ar waith i fodloni'r gofynion cymhleth, sy'n newid o hyd, o ran diogelwch adeiladau, gorfodi ac addasu er mwyn bodloni anghenion deddfwriaeth bresennol a newydd.

Cam gweithredu 5.5: Sicrhau bod ein hymyriadau diogelwch tân yn y cartref yn seiliedig ar bobl a'r risgiau sy'n eu hwynebu, i ddarparu gwerth economaidd a chymdeithasol.

Cam gweithredu 5.6: Sicrhau bod ein trefniadau diogelu yn bodloni'r risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Cam gweithredu 5.7: Darparu gweithgareddau ymyrraeth diogelwch lleol a rhanbarthol i sicrhau bod y sawl sydd â dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Datganiad cynnydd Amcan Pump ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Parhaodd y gwaith i ddatblygu meini prawf gwerthuso wedi'u cynllunio i gasglu data ar yr adenillion cymdeithasol ac economaidd ar ôl cwblhau Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref.
- Cwblhawyd cyfanswm o 12,709 o Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn ystod cyfnod adrodd 2025/2026, gyda 57% wedi'u cynnal o fewn y categorïau agored iawn i niwed neu hynod o agored i niwed.

- Cwblhawyd gwerthusiad cynhwysfawr o effaith newid polisi Galwadau Tân Diangen ynghylch peidio â mynd allan i adeiladau masnachol a rhoddwyd y canfyddiadau ar waith. Cyflwynodd y newid ostyngiad o 89% o ran mynd allan gan arbed 394 awr o amser criwiau'r ochr weithredol, a defnyddiwyd yr amser hwn ar gyfer hyfforddiant critigol o ran risg a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned.
- Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu'r rhaglen ymyrraeth REFLECT newydd, gan ymgysylltu â 1,264 o unigolion yn ystod y cyfnod adrodd, gyda chyfanswm o 36,895 yn bresennol mewn sesiynau a 29 o fyfyrwyr ar gyfartaledd ym mhob sesiwn.
- Ymgysylltwyd â 196 o ddisgyblion fel rhan o Brosiect Ffenics, gyda 153 o ddisgyblion yn cwblhau'r cwrs ac yn ennill eu Tystysgrif Achredu Agored Cymru.
- Cyflwynwyd mentrau addysg mewn ysgolion ar draws ardal y Gwasanaeth, gan gyrraedd 20,000 o unigolion.
- Ymgysylltwyd â chyfanswm o 2,500 o blant a phobl ifanc yn Eisteddfod yr Urdd.
- Cynhaliwyd 5,565 o ymgysylltiadau Diogelwch ar y Ffyrdd.
- Datblygwyd byrddau synhwyraidd diogelwch tân pwrpasol yn llwyddiannus gyda Cerebra (elusen arbenigol). Profwyd y prototeipiau ledled ardal y gwasanaeth gyda phlant a phobl ifanc ag amrywiaeth o Anghenion Addysgol Arbennig, gan gynnwys amhariad ar y golwg, awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r adborth gan staff a disgyblion ysgolion wedi cael ei ddefnyddio i wella'r byrddau ymhellach.
- Cafodd aelodau o'r tîm Addysg Diogelwch Cymunedol Gymeradwyaeth Uchel yn y categori Diogelwch Cyhoeddus yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel am gynhwysiant y Byrddau Synhwyraidd Diogelwch Tân.
- Cyflwynwyd addysg gymunedol yn Sioe Frenhinol Cymru, Sioe Sir Benfro, digwyddiadau cymunedol, a diwrnodau agored Gorsafoedd Tân yn ystod y cyfnod adrodd.
- Arweiniodd Arweinydd Addysg y Gwasanaeth datblygu adnoddau Diogelwch Batris Lithiwm, ac mae taflenni gwaith addysgol a chynhyrchion ymgysylltu addysgiadol wedi'u cynllunio i ledaenu'r neges ddiogelwch. Mae'r adnoddau wedi cael eu rhannu â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a byddant yn cael eu defnyddio fel offer ymgysylltu mewn digwyddiadau mawr ledled Cymru, er enghraifft, yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfod yr Urdd.
- Mae ffilmio ar gyfer prosiect Tanau Trefol yn parhau, gyda segmentau gan Bennaeth yr Adran Diogelwch Cymunedol, Nyrs Llosgiadau Pediatrig Arbenigol o Adran Llosgiadau Ysbyty Treforys a Swyddogion Dylunio er mwyn Atal Troseddau o Heddlu Dyfed Powys. Mae GTADC yn darparu rhywfaint o gefnogaeth ariannol i'r prosiect. Y nod yw lleihau tanau niwsans ac ymddygiadau peryglus ymhlith plant a phobl ifanc. Bydd Tîm Addysg y Gwasanaeth yn cyflwyno'r wers hon mewn ardaloedd wedi'u targedu sydd wedi cael problemau gyda dechrau tanau a thanau niwsans, gan fod gennym berthnasoedd hirsefydlog â dros 400 o sefydliadau addysgol yn ardal ein gwasanaeth. Bydd y wers hefyd ar gael i'r Tîm Ieuenctid ar gyfer prosiect

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Ffenics a'r tîm Lleihau Tanau Bwriadol i'w chyflwyno i ysgolion a / neu glybiau ieuenctid.

- Cynhaliwyd digwyddiad diogelwch dŵr aml-asiantaethol ym mis Gorffennaf 2025 wrth y rhaeadr ger Glyn-nedd, lleoliad sydd wedi bod yn dyst i ddigwyddiadau diogelwch dŵr trasig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan roi cyfle i aelodau'r cyhoedd wylio arddangosiadau achub o'r dŵr a derbyn gwybodaeth am ddiogelwch gan y Gwasanaeth ac asiantaethau partner.
- Fel rhan o ymdrechion parhaus ymgysylltu â'r gymuned, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda phreswylwyr Llanelli mewn perthynas â thipio anghyfreithlon a llosgi.
- Cyflwynwyd gwasanaethau diwedd tymor yn cwmpasu diogelwch barbeciws, ymwybyddiaeth o danau bwriadol a pheryglon adeiladau adfeiliedig yn Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau. Cyflwynwyd y prosiect 'Aros ar yr Ochr Iawn' hefyd i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn Llanelli, gan ganolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atal tanau gwair.
- Ymgysylltodd dros 200 o bobl ifanc â chyflwyniadau Domino yn y chweched dosbarth, a chyflwynwyd tri chwrs Beiciwr i Lawr yn Rhanbarth y Gogledd a Rhanbarth y Gorllewin mewn ymateb i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â beiciau modur.
- Trefnodd y Gwasanaeth y Gynhadledd Tueddiadau Troseddau Cysylltiedig â'r Ieuenctid, a gynhaliwyd yn Stadiwm Swansea.com ddydd Mawrth, 10 Chwefror, gyda dros 100 yn bresennol. Daeth y digwyddiad ag ystod o sefydliadau ynghyd ac roedd yn canolbwyntio ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn troseddau sy'n gysylltiedig â'r ieuenctid ac effaith ecsbloetio ar ymddygiad troseddol. Ei nod hefyd oedd cryfhau gweithio cydweithredol a rhannu gwybodaeth.
- Cynhaliwyd ffilmio cynnwys addysg tanau gwyllt ar gyfer Llywodraeth Cymru ym Mhort Talbot.
- Cwblhawyd y broses ystafell gytbwys tanau gwyllt, gan arwain at wyth canlyniad a gyflwynwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac a gymeradwywyd ganddynt. Mae ystafelloedd cytbwys yn fforymau lle mae gwahanol fudd-ddeiliad, gyda'u gwahanol safbwyntiau, buddiannau a phwerau, yn cael cynrychiolaeth gyfartal ac yn gallu cymryd rhan mewn ffordd ystyrlon. Nod ystafell gytbwys yw meithrin deialog agored a sicrhau bod pob safbwynt perthnasol yn cael ei ystyried.
- Cyflwynwyd canlyniadau cysylltiedig ag atal o'r broses ystafell gytbwys tanau gwyllt i Fwrdd Tanau Gwyllt Cymru er ymwybyddiaeth.
- Cynhaliwyd gweithgareddau atal tanau gwyllt ym Mlaendulais i helpu i ddiogelu eiddo cyfagos a lleihau'r risg o ledaenu tân.
- Parhaodd mentrau lleihau tanau bwriadol, gan gynnwys cynnal sesiwn galw heibio yng Nghwm Du. Defnyddiwyd Cerbyd sy'n addas ar gyfer pob math o dir yng Ngorsaf Dân Aberhonddu i hyrwyddo'r genhadaeth "Llosgi i Amddiffyn" mewn partneriaeth â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- Parhaodd trefniadau gweithio cydweithredol gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar safle Colbren, a oedd wedi dioddef llosgiad yn ystod y tymor blaenorol. Roedd yr ardal yn cynnwys dros 1,000 erw o dir Safleoedd o

Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), a darparwyd canllawiau i'r ffermwr lleol ar arferion gorau ar gyfer rheoli tir i leihau'r risg o danau gwyllt yn y dyfodol.

- Drwy asesiadau ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), nodwyd sawl ardal sy'n peri pryder, gan gynnwys eiddo yng Ngŵyr wedi'i amgylchynu gan eithin trwchus.
- Cyflwynwyd cyngor atal tanau bwriadol i fyfyrwyr Ysgol Gyfun Penyrheol i godi ymwybyddiaeth a lleihau'r risg yn y dyfodol.
- Parhaodd yr adran Diogelwch Tân Busnesau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyflwyno'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) newydd
- Wrth baratoi ar gyfer y Ddeddf, sefydlwyd darpariaeth i sicrhau bod pob ymgynghoriad yn cael ei gyfathrebu trwy bwynt canolog, a'i ledaenu i bersonél cymwys priodol.
- Ymestynnwyd y Rhaglen Ymweliadau Diogelwch Adeiladau i'r holl griwiau amser cyflawn ar draws ardal y Gwasanaeth, gyda hyfforddiant wedi'i gyflwyno a derbyniwyd adborth cadarnhaol.
- Cynhaliwyd cyfanswm o **817** o archwiliadau Rhaglen Arolygu yn Seiliedig ar Risg yn ystod y cyfnod adrodd. **37** o Archwiliadau Wedi'u Cynllunio yn Dilyn Tân a **70** o Archwiliadau Dilynol Wedi'u Cynllunio.
- Cwblhawyd cyfanswm o **740** o ymgynghoriadau rheoliadau adeiladu.
- Cofnodwyd cyfanswm o **357** o weithgareddau ymgysylltu â busnesau ar draws ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o fusnesau bach i fusnesau mawr.
- Dechreuodd y gwaith ar sut i integreiddio Data Caerwysg â system CFRMIS y Gwasanaeth i wella sut mae gwybodaeth yn cael ei chasglu a'i dyrannu i griwiau. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Amwythig i nodi'r gwersi a ddysgwyd o'u gweithredu.
- Parhaodd trefniadau partneriaeth cryf y Gwasanaeth i ddarparu manteision, gydag atgyfeiriadau Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref gan asiantaethau partner yn cyfrannu at 64% o'r sawl dros 65 oed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.
- Cafodd aelodau o'r tîm Diogelwch Cymunedol Gymeradwyaeth Uchel yn y categori Diogelwch Cyhoeddus yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel.
- Cyflwynwyd digwyddiad pythefnos Criw Craidd yn llwyddiannus yn Sir Benfro.
- Datblygwyd offer atal tân synhwyraidd ar gyfer plant niwroamrywiol mewn cydweithrediad â Cerebra, ochr yn ochr â datblygu a phrofi adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol gan ddefnyddio Widget.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Parhau i ganolbwyntio ymyriadau diogelwch plant a phobl ifanc ar y sawl sydd fwyaf agored i niwed.
- Bwrw ymlaen â chanlyniadau ystafell gytbwys tanau gwyllt, gan gynnwys arferion rheoli ac ymgysylltu â'r gymuned i leihau effaith tanau gwyllt ar gymunedau.
- Sicrhau bod y Rhaglen Arolygu yn seiliedig ar Risg (RBIP) yn cael ei chyflwyno yn unol â'r adnoddau sydd ar gael, gan ystyried deddfwriaeth

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

newydd megis Deddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) wrth gynllunio yn y dyfodol.

- Gweithredu argymhellion archwiliad 'Atal Tân Risg Uchel wedi'i Dargedu' Archwilio Cymru, yn enwedig o ran bregusrwydd diogelwch yn y cartref, a chynyddu'r gwaith o ddarparu Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Cefnogi'r gymuned fusnes o ran diogelwch tân, wrth sicrhau bod mesurau gorfodi yn diogelu'r sawl sy'n wynebu'r risg fwyaf.

Sut y cyfrannodd Amcan Pump at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 5 - *Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) a Diogelu (Diogelwch Tân Busnesau) yn rheolaidd i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.*	Mae adolygu trefniadau atal a diogelu yn helpu i gynllunio ar gyfer newidiadau hirdymor mewn risg gymunedol. Bydd darparu ystod o drefniadau atal a diogelu ar y cyd â'n partneriaid yn creu cysylltiadau yn y gymuned sy'n gynaliadwy, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau yn sgil tanau mewn cartrefi, busnesau ac yn yr amgylchedd cymunedol ehangach, gan greu cymuned sy'n fwy gwydn ac sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus.	Gall gwella diogelwch preswylwyr a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyriadau yn ogystal â nodi cyfleoedd i leihau nifer y digwyddiadau a lleihau troseddu leihau'r risg o niwed a dod â buddion economaidd i boblogaeth wardiau, ardaloedd preswyl, cymunedau, busnesau a thu hwnt.	Bydd deall cymunedau a dylanwadu'n gadarnhaol ar eu diogelwch a'u lles ochr yn ochr â phartneriaid yn cyfrannu tuag at amgylchedd cadarnhaol i bawb.	Bydd gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asiantaethau partner yn galluogi'r Gwasanaeth i gyrraedd a chysylltu â phob rhan o gymunedau, gan gael gwared ar ffiniau i ardaloedd llai difreintiedig a dad-stigmateiddio enw drwg a record wael mewn perthynas â statws economaidd-gymdeithasol.	Mae ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid yn helpu i lunio strategaethau atal priodol, wedi'u targedu, gan sicrhau bod yr ymyriadau'n effeithiol.

Amcan Gwella a Llesiant Chwech – Ymgysylltu.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 6.1: Gwella ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau ein cymunedau drwy ymgynghori ac ymgysylltu.

Cam gweithredu 6.2: Nodi a gweithredu dulliau newydd o ymgysylltu â staff a chymunedau.

Cam gweithredu 6.3: Dylunio, datblygu a gweithredu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol.

Cam gweithredu 6.4: Ymgysylltu â'r undebau llafur yn unol â dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch newid sefydliadol.

Datganiad cynnydd Amcan Chwech ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Daeth cyfres o sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned i ben, gyda dadansoddiad manwl wedi'i gynnal a'i gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'r Awdurdod Tân.
- Ar ôl cwblhau'r sesiynau galw heibio ymgysylltu, cynhaliwyd gwerthusiad i nodi'r gwersi a ddysgwyd, y gellid eu cymhwyso i ddigwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol. Datblygwyd cyfeiriadur digwyddiadau hefyd.
- Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu i hyrwyddo'r arolwg. Roedd y rhain yn cynnwys hysbyseb dudalen lawn a hysbyseb ddigidol yn y Tenby Observer (yr hysbyseb ddigidol wedi'i gweld 24,000 o weithiau a'r hysbyseb bapur newydd 9,000 o weithiau), hysbyseb dudalen lawn yng nghylchgrawn Heart of Swansea, ac erthyglau printiedig yn y Western Telegraph (20,707 o ddarllenwyr) a Daily Post Wales (25,549 o ddarllenwyr).
- Roedd straeon newyddion ar-lein hefyd wedi'u cynnwys ar wefan a thudalen Facebook *Wales Online* (115,241 o argraffiadau ymgyrch, 2,243 o gliciau, a chyfradd clicio drwodd o 1.95%), ochr yn ochr ag erthyglau print hanner tudalen a sylw ar-lein ychwanegol yn y *Western Telegraph* a'r *County Times*.
- Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ar gyfer *'Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru... Gyda'n Gilydd'* a'r sesiynau galw heibio cysylltiedig. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys: Cyhoeddwyd 58 o bostiadau cyfryngau cymdeithasol, gan gyflawni cyfanswm cyrhaeddiad o 69,164. Cyfanswm yr argraffiadau oedd

73,911. Roedd cyfanswm yr ymgysylltu yn 3,616 (gan gynnwys y nifer oedd wedi hoffi, rhannu, rhoi sylwadau neu glicio ar y postiadau).

- Ceisiwyd cymorth gan ymgynghorydd ymgynghori allanol, a ddadansoddodd pa elfennau o Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040 y Gwasanaeth oedd angen ymgysylltu.
- Parhaodd y tîm Diogelwch Tân Busnesau i ddefnyddio cyfarfodydd misol o'r tîm cyfan i wella'r modd y mae gwybodaeth yn cael ei rhaeadru o fewn yr adran.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Llywio Ymgyrchoedd y Gwasanaeth i ddylunio a datblygu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol, gan gynnwys yr ymgyrchoedd *'Cofrestru Fy Offer'* a Recriwtio Amser Cyflawn.
- Drafftiwyd adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, yn dangos sut y gwnaeth y Gwasanaeth gydymffurfio â'r ddyletswydd, a'i gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i'w ystyried.
- Parhaodd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur i fynychu cyfarfodydd Monitro Perfformiad Amcanion a chyfarfodydd Bwrdd Darparu Rheoli Risg Cymunedol.
- Parhawyd â'r ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd a staff gan ddefnyddio'r arolwg *'Dweud eich Dweud'* dros gyfnod yr haf mewn diwrnodau agored Gorsafoedd Tân, digwyddiadau golchi ceir, Sioe Frenhinol Cymru a Sioe Sir Benfro.
- Datblygwyd Gweithdrefn Deisebau a Gweithdrefn Ddadleuon ar gyfer pob ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori.
- Mewn ymateb i'r adborth a gasglwyd yn ystod sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned, lle codwyd pryderon am ymateb y Gwasanaeth i newid yn yr hinsawdd, cynhaliwyd cyfres o weithdai datblygu opsiynau Ystafell Gytbwys Tanau Gwyllt ym mis Awst, Medi a Hydref. Wedi'u hwyluso'n allanol, nod y sesiynau hyn oedd archwilio'n gydweithredol a chyd-ddylunio atebion i risg ac effaith gynyddol tanau gwyllt.
- Cynhaliwyd cyfres bellach o sesiynau Ystafell Gytbwys, gan ganolbwyntio ar lifogydd, ym mis Ionawr a Chwefror 2026. Daeth y sesiynau hyn â chyfranogwyr at ei gilydd i archwilio a datblygu atebion yn gydweithredol ar gyfer ymateb y Gwasanaeth i lifogydd. Arweiniodd y broses at bum canlyniad, a gyflwynwyd i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ym mis Ebrill am gymeradwyaeth derfynol.
- Dyrannwyd canlyniadau cymeradwy i weithgorau mewnol ac allanol i'w gweithredu, ynghyd â datblygu amserlenni cysylltiedig.
- Dechreuodd y gwaith ar ddatblygu gweithdrefn fewnol *'Ystafell Gytbwys Gryno'*, gan alluogi adrannau i gymhwyso'r cysyniad o fewn eu gweithrediadau eu hunain.
- Adolygodd yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD) ei dull cyfathrebu a'i defnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys effeithiolrwydd X (Twitter gynt).
- Cyflwynwyd cynrychiolwyr cyfathrebu er mwyn i adrannau ddarparu un pwynt cyswllt a chefnogi dull cyson o rannu diweddariadau.
- Cymeradwywyd y Rhaglen Newid Cyfathrebu Mewnol gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ac fe'i lansiwyd wedyn ar

draws y Gwasanaeth.

- Dechreuodd y gwaith i gynhyrchu fideo newydd, gan ddefnyddio cyflenwr allanol, i hyrwyddo'r CRhRC a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig.
- Cynhyrchwyd cyfres o fideos Ar Alwad sy'n dangos digwyddiadau'r ochr weithredol yn y sector Ar Alwad.
- Parhaodd y gwaith i ddatblygu gwefan y CRhRC ymhellach fel un ffynhonnell wirionedd ynghylch y cynllun a'i gynnydd.
- Cyflwynwyd podlediadau llesiant fel dull amgen o gyfathrebu mewnol, yn cwmpasu ystod o destunau gan gynnwys teithiau canser personol, iechyd a maeth, sgamiau ar-lein, ffibriliad atrïaidd, a thrawiadau ar y galon.
- Fe wnaeth sesiwn holi ac ateb, a gynhaliwyd gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) ddydd Mercher, 19 Tachwedd, roi cyfle i staff ddysgu am Flaenoriaethau Strategol y Gwasanaeth, derbyn diweddariad ar gynllunio cyllideb gorfforaethol, a gofyn cwestiynau yn uniongyrchol.
- Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu cyn-dendro ar-lein ar y fframwaith weldio, buddion iechyd, a hyfforddiant Diogelwch Tân Busnesau gyda llawer yn cymryd rhan. Cafodd yr holl ddigwyddiadau eu hyrwyddo drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth a *GwerthwchiGymru*.
- Gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu parhaus â staff a chymunedau, cynhaliwyd adolygiad o arolygon ymgysylltu â'r gymuned y Gwasanaeth. Arweiniodd hyn at uno dau arolwg i greu un arolwg unedig, *'Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Gyda'n Gilydd'*, a lansiwyd ym mis Hydref 2025. Cynhaliwyd ymgysylltu wyneb yn wyneb hefyd yn y Ffair Aeaf yn Llanfair-ym-Muallt.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Defnyddio adborth o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a mewnwelediadau o'r arolwg *'Addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gyda'n Gilydd'* i nodi a chytuno ar raglen o destunau 'Ystafell Gytbwys'.
- Parhau i ymgorffori'r alinio â phob undeb llafur yn unol â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o safbwynt newid sefydliadol.
- Adolygu a gweithredu gwelliannau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd, a gweithredu ar ganfyddiadau i gryfhau dulliau o ymgysylltu â staff a'r gymuned.
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i sicrhau bod ein lefel ymgysylltu yn unol â'n disgwyliadau ac i sicrhau ymhellach ein bod yn ymgysylltu â phob grŵp ein cymunedau amrywiol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Sut y cyfrannodd Amcan Chwech at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 6 - *Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom.*	Mae cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru wrth wraidd popeth y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud, ac felly mae cynllunio ar gyfer y tymor hwy yn hynod o bwysig. - Mae ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau i ddeall eu disgwyliadau yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn canolbwyntio ar bobl ac yn gynhwysol. Mae hefyd yn helpu i nodi heriau a materion, yn ogystal â risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, sy'n cynorthwyo gyda threfniadau cynllunio tymor hwy.	Mae ymgysylltu ac ymgynghori parhaus yn helpu i annog cyfranogiad y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau. Ar ben hynny, cynorthwyodd i nodi risgiau a gwendidau.	Trwy wella'r ddealltwriaeth o ddisgwyliadau cymunedau trwy ymgynghori ac ymgysylltu, amlygwyd y mannau hynny lle gallai'r Gwasanaeth gyd-fynd yn well â sefydliadau partner.	Defnyddiwyd dull cydweithredol, ac roedd hyn o gymorth i nodi arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau partner, i helpu i lunio dulliau newydd o ymgysylltu â staff a'r gymuned.	Cydnabyddir bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol ag arferion gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ganiatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, a rhoi gwybodaeth werthfawr a all gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae gwrando ar farn yr holl randdeiliaid yn hynod bwysig i helpu i lunio'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau a thrwy ddeall eu disgwyliadau.

Amcan Gwella a Llesiant Saith – Yr Amgylchedd.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 7.1: Gweithio tuag at gyflawni targedau Sero Net 2030 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Cam gweithredu 7.2: Cynhyrchu Map Ffordd Sero Net ar gyfer 2030.

Cam gweithredu 7.3: Nodi a gwerthuso effeithiolrwydd tanwydd amgen ar gyfer ein cerbydau.

Cam gweithredu 7.4: Ymgorffori a gwerthuso manteision yr Uned Hyfforddiant Ymddygiad Tanau Adrannol newydd.

Cam gweithredu 7.5: Adfywio ein hystâd er mwyn sicrhau bod ein gweithleoedd yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

Cam gweithredu 7.6: Paratoi, rheoli a gwerthuso ein gweithdrefnau sefydliadol er mwyn deall eu heffaith amgylcheddol.

Cam gweithredu 7.7: Nodi technegau a chyfarpar gweithredol newydd i liniaru effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

Cam gweithredu 7.8: Gweithio gyda'n cyflenwyr a'n defnyddwyr i wneud ein cadwyn gyflenwi yn gyfeillgar i'r amgylchedd.

Datganiad cynnydd Amcan Saith ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Cyflwynwyd taenlen adrodd Carbon Sero Net, sy'n cofnodi ystadegau allyriadau carbon y Gwasanaeth, i Lywodraeth Cymru. Mae'r daenlen yn monitro cynnydd y sector cyhoeddus tuag at yr uchelgais cyfunol o gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.
- Parhawyd i wneud cynnydd da yn erbyn yr amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Map Ffordd Lleihau Carbon.
- Cyflawnwyd cynnydd sylweddol yng Ngham 1 gweithredu Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO), gyda phedwar o'r pum safle tanwydd swmp yn pontio o ddiesel i HVO. Arweiniodd hyn at brynu 28,000 litr o HVO yn lle diesel.
- Canolbwyntiodd Cam 2 ar ehangu'r defnydd mewn lleoliadau milltiroedd uchel dethol, lle byddai maint yr HVO a ddefnyddir yn gwrthbwyso cost carbon annatodol uwchraddio seilwaith.

- Parhaodd cynnydd ar ddatblygu'r System Rheoli Adeiladau, a gynlluniwyd i fonitro a rheoli defnydd ynni'r Gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd i drafod dyluniad a swyddogaeth y system.
- Cyflwynwyd amrywiol geisiadau am gyllid, gan gynnwys un i raglen System Ynni Leol Glyfar (SLES) Ynni Cymru ar gyfer gosod gwresogi ffynhonnell aer, solar ffotofoltaidd gyda storio batris, a System Rheoli Batris. Cyflwynwyd mynegiant o ddiddordeb hefyd i SALIX i archwilio cyfleoedd am gyllid ar gyfer gosodiadau batris solar ar draws pum lleoliad Gwasanaeth.
- Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Castell-nedd Port Talbot, cyflwynwyd prosiectau seilwaith gwyrdd yng Ngorsafoedd Tân Y Cymer a Dyffryn Aman. Roedd y gwaith yn cynnwys strwythurau toeon gwyrdd, planwyr dŵr glaw, cysgodfannau beiciau, canopïau a chysgodfannau biniau wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd a bioamrywiaeth.
- Agorwyd gardd gymunedol yng Ngorsaf Dân y Trallwng fel rhan o'r prosiect Mannau Gwyrdd, gyda'r nod o wella bioamrywiaeth, cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol a hyrwyddo llesiant staff.
- Mae gwaith ailwampio sylweddol yng Ngorsaf Dân Machynlleth wedi gwella gwerthoedd inswleiddio, gan arwain at gadw gwres yn well a lleihau'r defnydd o nwy.
- Parhaodd y gwaith i ddatblygu'r meini prawf gwerthuso wrth baratoi ar gyfer defnyddio'r Uned Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol.
- Parhaodd y cynnydd gydag Intégral Géotechnique, a gynhaliodd brofion dŵr daear ar safle Earlswood. Casglwyd yr holl samplau dros sawl mis a'u dadansoddi yn y labordy.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Draeger i roi adborth ar yr Uned Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol, a derbyniwyd yn ffurfiol cwblhau technegol y gwaith.
- Sicrhawyd cyllid grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan gwerth £138,000 ar gyfer gosod cyfleusterau gwefru cerbydau trydan yn sawl un o leoliadau'r Gwasanaeth, gan gynnwys Pontardawe, y Trallwng, Llanidloes, Rhaeadr Gwy, Glyn-nedd, Castellnewydd Emlyn, Crucywel, Llanfair-ym-Muallt, Aber-craf a Phort Talbot.
- Parhaodd yr adran Offer Gweithredol a Sicrwydd i archwilio technolegau i gefnogi canlyniadau Ystafell Gytbwys, gan gynnwys asesu robotiaid diffodd tân yn sgil dyfarnu cyllid grant i sefydliadau allanol i ddatblygu a gwerthuso'r cysyniad ymhellach.
- Archwiliwyd y defnydd o dronau, a datblygwyd strategaeth i gefnogi gweithrediadau llosgi dan reolaeth.
- Gosodwyd mesuryddion cyfradd llif ar danciau dŵr y Gwasanaeth i ddarparu mesur cywir o ddŵr halogedig a wasgarir yn ystod digwyddiadau, gyda'r data yn cael ei rannu â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- Archwiliwyd opsiynau yn dilyn argymhellion adroddiad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac Arolygwyr (CFRAI), gan gynnwys prynu pibellau dŵr canghennau llyfn 22mm. Cynhaliwyd gwerthusiad o'u heffeithiolrwydd.
- Cynhaliwyd gwaith ymchwil a datblygu ar gyfer mabwysiadu gwyntyllau a chyfarpar a yrrir gan fatris.
- Adolygwyd y defnydd o ddŵr wedi'i drin ag uwchfioled (UV), mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Ymgorfforwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ym mhob contract i gasglu gwybodaeth sy'n cefnogi adrodd ar allyriadau Cwmpas 3.

- Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i drafod datblygu amcanion sy'n cyd-fynd ag elfennau Gwaith Teg a Chynaliadwyedd y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.
- Roedd aelodau o'r tîm Caffael a Chontractio yn bresennol yn nigwyddiad Arddangosfa Cyflenwyr Busnes Cymru ar 10 Medi, gan ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu â sefydliadau ledled Cymru a thrafod gwerth cymdeithasol mewn caffael.
- Parhaodd y cynnydd wrth weithio gyda chyflenwyr a defnyddwyr terfynol i wella cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys annog ymgysylltu gan Fentrau Bach a Chanolig (BBaChau) ym mhrosesau tendro'r Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu cyn tendro wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan alluogi cyflenwyr i ymgysylltu â'r tîm Caffael a Chontractio a cheisio eglurhad cyn cyhoeddi tendrau. Cynigiwyd sesiynau adborth hefyd i gyflenwyr aflwyddiannus.
- Cyflwynwyd Dyfeisiau Aml-Swyddogaeth ar draws ardal y Gwasanaeth, gan ddarparu manteision megis defnyddio llai o ynni, costau cyfleustodau is, defnyddio llai o bapur ac inc, a deunyddiau traul mwy cyfeillgar i'r amgylchedd.
- Gwnaed gwelliannau i'r system PeopleXD, gan gynnwys cyflwyno modiwl treuliau ar-lein a modiwl cynefino gweithwyr, gan leihau'r defnydd o bapur ymhellach.
- Archwiliwyd cyfleoedd gan yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg i ddigideiddio taflenni gwasanaethu cerbydau, gan ddefnyddio systemau electronig yn lle prosesau papur.
- Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2025, proseswyd cyfanswm o 196,113 kg o wastraff Gwasanaeth. Cafodd 73% o hyn ei ailgylchu, 26% ei adfer, a dim ond 1% a anfonwyd i safleoedd tirlenwi. Cyflawnodd ailgylchu deunyddiau cymysg a gwastraff bwyd gyfradd ailgylchu o 100%, a chafodd gwastraff cyffredinol ei gyfeirio'n bennaf at gyfleusterau ynni o wastraff, gyda dim ond 3% wedi'i anfon i safleoedd tirlenwi.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Bydd gwaith yn parhau o ran gweithio gyda chyflenwyr i wella eu gallu i adrodd ar allyriadau Cwmpas 3.
- Datblygu Strategaeth Gaffael newydd ar gyfer 2026–2031, yn unol â gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.
- Bydd mwy o fframweithiau masnach yn cael eu sefydlu, gyda'r nod o ddenu cyflenwyr lleol, a thrwy hynny leihau ôl troed carbon y Gwasanaeth ymhellach wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y tîm Ystadau.
- Parhau i nodi modd o ddigideiddio a symleiddio prosesau ar draws y Gwasanaeth, er mwyn lleihau'r defnydd o bapur.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Sut y cyfrannodd Amcan Saith at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
***Amcan 7** - Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy.*	Fe wnaeth ymchwilio i dechnolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg barhau i gefnogi'r Gwasanaeth i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd ac yn gynaliadwy. Sicrhaodd y canlyniad tymor hwy Wasanaeth sy'n gyfrifol yn amgylcheddol trwy wella perfformiad amgylcheddol y Gwasanaeth; gwella effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau; a lleihau cymaint â phosibl ar yr effaith ar yr amgylchedd.	Trwy ddefnyddio systemau technoleg a meddalwedd i fonitro a dadansoddi data roedd modd gweithredu mesurau ataliol, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a'r cymunedau lleol.	Bydd parhau i integreiddio ac ymgorffori prosesau sy'n amgylcheddol gynaliadwy ledled y Gwasanaeth yn helpu i leihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Gwasanaeth ar y cymunedau lleol.	Trwy archwilio cyfleoedd i gydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partner ar brosiectau amgylcheddol roedd modd rhannu arferion gorau a chaniatáu cyfleoedd i wersi gael eu dysgu, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gymunedau.	Trwy gynnwys staff wrth lunio mentrau cynaliadwyedd a darparu addysg ac ymwybyddiaeth, trwy'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, llwyddwyd i'w grymuso i gymryd perchnogaeth ar newid amgylcheddol cadarnhaol o fewn y Gwasanaeth.

Amcan Gwella a Llesiant Wyth – Cerbydau ac Offer.



Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:

Cam gweithredu 8.1: Meddu â cherbydau a chyfarpar a fydd yn helpu i reoli halogyddion yn effeithiol mewn argyfyngau.

Cam gweithredu 8.2: Darparu'r cerbydau cywir i'n diffoddwyr tân ymateb i'r risgiau yn ein cymunedau.

Cam gweithredu 8.3: Sicrhau bod ein cyfarpar gweithredol yn ein galluogi i fod yn effeithiol mewn argyfyngau.

Datganiad cynnydd Amcan Wyth ar gyfer cyfnod adrodd 2025/2026:

- Cyflwynwyd peiriannau tân cab clir, gyda chynlluniau i werthuso hyn er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd cyn cyflwyno rhagor.
- Gwnaed cynnydd o ran sefydlu contractau caffael ar gyfer cyfarpar a cherbydau lles. Bydd y contractau hyn o gymorth i gyflwyno cerbydau sydd wedi'u cynllunio i alluogi diheintio ar ôl digwyddiad.
- Datblygodd yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg (FELD) gysyniad ar gyfer Cerbyd Cefnogi Digwyddiadau generig sy'n gallu gweithredu'n llawn i'w ystyried gan yr Adran Gaffael a Chontractio i gychwyn y broses gaffael.
- Yn dilyn camau ymchwil a datblygu, drafftiwyd papur am yr opsiynau ar gyfer y cerbydau a nodwyd, gan gynnwys manylebau drafft ar gyfer Peiriannau Tân Canolig, Cludwyr Dŵr Gwledig, Cerbydau Cefnogi Digwyddiadau, Cyfleusterau Lles a Halogyddion, a chyfarpar ac opsiynau cyfunol.
- Roedd gwaith yn parhau i wella safonau hylendid a lles mewn digwyddiadau, gan gynnwys archwilio opsiynau i gyflwyno sinciau golchi dwylo ar gerbydau dros ben.
- Cytunwyd i brynu chwe pheiriant ar gyfer treial cychwynnol.
- Cwblhawyd y fanyleb ar gyfer tanciau dŵr gwledig, a rhoddwyd contract ar waith i fwrw ymlaen â chaffael.
- Parhawyd gwneud cynnydd ar yr adolygiad Cam 1 o gyfarpar ar beiriannau tân, gan sicrhau bod cyfarpar wedi'u lleoli a'u diogelu'n briodol yn unol â rhestr gyfarpar wreiddiol y cyflenwr.
- Parhaodd yr Adran Offer Gweithredol a Sicrwydd (OEA) â chamau ymchwil a datblygu i ganfod trefniadau addas ar gyfer cyfarpar.

- Aeth gwaith yn ei flaen i ganfod Offer Gwarchod Personol Aml-Swyddogaethol (MFPPE) addas sy'n cyd-fynd â'r risgiau a'r mathau o ddigwyddiadau yr aeth y gwasanaeth atynt. Datblygwyd dull pedwar i bum cam i archwilio opsiynau Offer Gwarchod Personol, gan sicrhau bod personél wedi'u diogelu'n briodol i'r lefel risg.

Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Parhau i gyflwyno dillad gwaith corfforaethol newydd er mwyn i ddiffoddwyr tân fod yn fwy cyfforddus, gan ddarparu ystod o ddillad mwy technegol ac amrywiol sy'n canolbwyntio ar dasgau.
- Parhau i archwilio cyfleoedd i ddatblygu fflyd cerbydau'r Gwasanaeth ar draws Rhanbarthau, Hyfforddiant a Diogelwch Cymunedol, gan alluogi amnewid cerbydau generig gyda rhai sy'n fwy addas ar gyfer anghenion yr ochr weithredol.
- Cyflwyno opsiynau trwy broses lywodraethiant y Gwasanaeth i dreialu ystod o fathau o gerbydau, gan gefnogi esblygiad y fflyd a gwella gallu ymateb a gwydnwch yr ochr weithredol.
- Parhau i adolygu'r cyfarpar a gludir ar beiriannau tân, gyda'r nod o sefydlu rhestr gyfarpar safonedig. Bydd Cam 1 yn cadarnhau'r cyfarpar craidd sydd i'w cario, a bydd Cam 2 yn archwilio cyfleoedd ar gyfer cyfarpar tymhorol, megis cyfarpar tanau gwyllt yn y gwanwyn a chyfarpar llifogydd yn y gaeaf.
- Datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer Offer Gwarchod Personol Aml-Swyddogaethol.
- Gweithio gyda chyflenwyr i ddatblygu opsiynau ar gyfer ôl-osod a gwella'r cerbydau presennol, gan ymgorffori dysgu a chanlyniadau yn sgil yr adolygiad rhestr eiddo, gan gynnwys gwelliannau megis storio chwythwyr dail.
- Gwella gallu'r ochr weithredol trwy gyflwyno peiriannau 4x4 â chyfarpar i gefnogi gyrru trwy ddyfroedd bas a gyrru oddi ar y ffordd, gan gryfhau'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd a thanau gwyllt.
- Gwella lles diffoddwyr tân mewn digwyddiadau trwy gyflwyno pecynnau maeth yn y peiriannau, gan gynnwys codenni electrolyt a bariau egni, i gefnogi hydradu a pherfformiad effeithiol.
- Bwrw ymlaen â chaffael Cerbydau sy'n Addas ar gyfer Pob Math o Dir (ATVs), gan ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o'r treialon i sicrhau bod cerbydau'n bodloni gofynion yr ochr weithredol ac anghenion defnyddwyr terfynol.
- Symud ymlaen gyda chaffael chwythwyr dail i gefnogi ein hymateb i danau gwyllt ac effeithiolrwydd yr ochr weithredol.

Sut y cyfrannodd Amcan Wyth at y Pum Ffordd o Weithio

	Tymor hir - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	**Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	**Integreiddio** - Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r amcanion llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	**Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.	**Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.
Amcan 8 - *Byddwn yn esblygu ein gofynion fflyd ac offer er mwyn i ni allu ymateb yn effeithiol i argyfyngau.*	Mae gofynion fflyd ac offer sy'n esblygu yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cwrdd â risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae'n cefnogi'r Gwasanaeth ymhellach i ymateb yn effeithiol i argyfyngau drwy barhau i fod yn wydn ac yn gynaliadwy.	Mae'n gwella diogelwch diffoddwyr tân ac yn cynorthwyo i ymateb i'r risgiau o fewn cymunedau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.	Mae offer modern yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol.	Mae gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, asiantaethau partner a gweithgynhyrchwyr yn helpu i nodi arferion gorau a gwersi a ddysgwyd, gan ddarparu mwy o werth am arian.	Mae cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu a dylunio atebion yn sicrhau bod gofynion cerbydau ac offer yn bodloni anghenion y defnyddwyr yn y pen draw.

Rhagor o wybodaeth.
Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y ddogfen hon.
Yn Adran Perfformiad ein gwefan, fe welwch wybodaeth am y canlynol: -

- Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.
- Cynlluniau Corfforaethol.
- Cynllun Strategol.
- Cynlluniau Gwella Busnes Blynyddol.
- Asesiadau Perfformiad Blynyddol.
- Adroddiadau Ymgynghori.
- Adroddiadau Archwilio Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru.
- Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan.

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol. I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.tancgc.gov.uk/cym/**, ein ffonio ni ar 0370 6060699 neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP. Fel arall, gallwch anfon e-bost atom yn mail@mawwfire.gov.uk.

Fersiynau Amgen

This document is also available in accessible formats. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall neu ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar 03706060699 neu e-bostiwch: crmp@mawwfire.gov.uk

Gwneud Cais am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref
Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, neu berthynas neu gymydog sy'n ddibynnol arnoch, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu drwy fynd i www.mawwfire.gov.uk/cym/

Dilynwch ni ar:
Facebook: facebook.com/mawwfire
Instagram: mawwfire_rescue

Atodiad 1

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Diweddariad cynnydd.
Mae'r Gwasanaeth yn deall pwrpas a nodau'r Ddeddf ac yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar gymunedau. Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040 yn amlinellu ymrwymiad tymor hwy ac wyth Amcan Gwella a Llesiant a fydd yn helpu i gyflawni'r saith nod Llesiant mewn sawl ffordd. Datblygwyd yr Amcanion Gwella a Llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac maent yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio, gan ddangos sut mae pob un yn helpu i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru.

Felly bydd y Gwasanaeth yn sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, bod yr ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r effaith y gallai'r penderfyniadau ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd roi ystyriaeth briodol i amrywiaeth gyfoethog y bobl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac mae'n parhau i gydweithio ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant, ac fel arall hefyd, i helpu eraill i gyflawni eu rhai hwy.

Yn ogystal, defnyddiwyd dull cydweithredol â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu'r CRhRC, gan sicrhau bod yr Amcanion Gwella a Llesiant yn cyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Amlinellodd CRhRC 2040 hefyd sut yr oeddem wedi ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a Nodau Llesiant:

Hirdymor
Fe wnaeth y Gwasanaeth barhau i edrych ar dueddiadau tymor hir a chynhaliodd ddadansoddiad o'i weithredoedd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol, gan felly fodloni anghenion ein cymunedau a'n budd-ddeiliaid yn well trwy wneud cymunedau mor ddiogel â phosibl, a pheidio â pheryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae meddwl tymor hir wedi'i ymgorffori mewn arferion busnes, a bydd y Gwasanaeth yn parhau i fabwysiadu dull gwylio'r gorwel fel rhan o'i brosesau cynllunio.

Wrth osod ac adolygu ei Amcanion Gwella a Llesiant, sicrhaodd y Gwasanaeth ei fod yn parhau i weld ac yn monitro tueddiadau'r dyfodol a heriau hirdymor a allai gael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir. Parhaodd y Gwasanaeth i addasu ac arallgyfeirio ei weithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau'n well, yn ogystal â gwella'r ffordd y mae'n diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio, yn byw ac yn ymweld â chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru i'w gwneud yn fwy diogel.

Atal
Roedd atal, amddiffyn, ac ymyrraeth gynnar yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth, a'i ymrwymiad i wneud y cymunedau mor ddiogel â phosibl, trwy adolygu ac addasu gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus. Daliodd y Gwasanaeth ati i gymryd ymagwedd ragweithiol, integredig, a chydweithredol tuag at y gwasanaethau

y mae’n eu darparu, trwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner newydd a rhai presennol i gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra, gan sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl yn ein cymunedau. Roedd y ffocws ar gyfer atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn digwydd a bod cymunedau wedi cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Integreiddio

Mabwysiadodd y Gwasanaeth ddull integredig wrth ddatblygu ac adolygu ei Amcanion Gwella a Llesiant, a thrwy weithio mewn ffordd fwy integredig roedd modd i’r Gwasanaeth ddatrys problemau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bu mabwysiadu dull ar y cyd i wneud y gorau posibl o gyfleoedd a chydweithio â phartneriaid a budd-ddeiliaid o gymorth wrth leihau dyblygu’r ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a hefyd roedd yn fodd o rannu adnoddau, dysgu a gwybodaeth er budd ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

Cydweithio

Mae cydweithio â phartneriaid yn parhau i fod yn holl bwysig i’r Gwasanaeth, gan gydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn nifer o ffyrdd, ac mae wedi addasu dull "Cymru gyfan" mewn nifer o feysydd. Fe wnaeth y dull cydweithredol hwn hefyd nodi'r dulliau cyflenwi mwyaf cost effeithiol ac effeithlon ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar nifer o faterion pwnc. Mae’r Gwasanaeth yn deall bod gweithio'n agos gyda phartneriaid yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar gymunedau ac yn cyflwyno negeseuon diogelwch ar y cyd. Felly, bydd y Gwasanaeth yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd presennol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau newydd a phresennol er mwyn defnyddio’i asedau yn y modd mwyaf effeithiol.

Cyfranogiad

Fe wnaeth y Gwasanaeth ymgynghori'n eang â'i fudd-ddeiliaid, sefydliadau partner a'r cyhoedd. Ymgysylltwyd â chymunedau lleol trwy ddigwyddiadau, sesiynau galw heibio ymgysylltu ac ymgynghoriadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a oedd yn annog deialog ddwyffordd a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud ar sut mae’r Gwasanaeth yn cyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant. Roedd annog cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn eithriadol o bwysig.

Roedd cyfraniad y Gwasanaeth tuag at gyflawni **Cymru Lewyrchus** yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth a chymorth gan bob un o'n cysylltiadau wrth ymweld â phobl yn y cymunedau i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi. Cyfrannodd y Gwasanaeth hefyd at gyflawni **Cymru Lewyrchus** trwy reoli ei asedau mewn ffyrdd gwell, mwy cost effeithiol ac effeithlon; adeiladu ar berthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau’r buddion gorau i'r gymuned a gwella’r cyfraniad at yr economi leol a lleihau’r costau i gymdeithas.

Llwyddwyd i gyfrannu tuag at **Gymru Gydnerth** drwy ystyried technoleg newydd ac arloesi o fewn y Gwasanaeth a deall yn well yr effaith ar yr amgylchedd er mwyn

cyflawni lleihad mewn ôl troed carbon, gan barhau i gynnal safon uchel o ran darparu gwasanaethau.

Sicrhawyd **Cymru iachach** drwy gynyddu cysylltedd a digideiddio, a gynorthwyodd y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau brys a gwasanaethau diogelwch cymunedol i gymunedau; gan sicrhau bod cyngor a rhaglenni ymyrraeth yn cael eu darparu i gynorthwyo unigolion i wella eu ffordd o fyw.

Sicrhawyd cyfraniad y Gwasanaeth tuag at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** drwy wella atebion wedi'u digideiddio a datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, drwy gyfrannu at ddatblygu cysylltedd a'n darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd.

Er mwyn helpu i greu **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**, blaenoriaethodd y Gwasanaeth ei ymyriadau ar gyfer yr unigolion hynny oedd fwyaf agored i niwed er mwyn gwella eu hamgylchiadau a rhoi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Cyfraniad y Gwasanaeth at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** oedd parhau i annog a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ardal y Gwasanaeth. Lle bo'n bosibl, hyrwyddwyd mynediad at wasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Hefyd, anogwyd gweithwyr i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a darparwyd cyfleoedd i weithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Dylanwadodd y Gwasanaeth ar gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** drwy barhau i wneud newidiadau sylweddol i leihau faint o bapur a ddefnyddir yn ei weithgareddau drwy annog cyflwyno pob gohebiaeth a dogfennaeth yn electronig.

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol drwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. Mae'r Gwasanaeth wedi coleddu'r egwyddor hon ac wedi parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel partner statudol.

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu wedyn yr ethos o sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol yn ei arferion busnes. Adlewyrchwyd arwyddocâd yr Amcanion a geir yng Nghynlluniau Llesiant pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth ei hun, a sicrhaodd fod gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwell canlyniadau i'n cymunedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ffurfio ei CRhRC 2040, ond mae hefyd wedi ymgorffori sawl ffordd newydd o weithio yn y modd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddylanwad mawr ar Edefyn Aur y Gwasanaeth. O gynlluniau datblygu unigol a strategaethau adrannol, hyd at CRhRC 2040, mae ethos y Ddeddf yn cael lle amlwg. Boed yn ffurfio partneriaethau newydd; mabwysiadu dull o wylio'r gorwel yn rhan o'n prosesau cynllunio at y dyfodol; neu ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei brosesau mewnol, mae wedi sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Parhaodd y Gwasanaeth i fod yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pharhaodd i goleddu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar y chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dyma rai o'r meysydd allweddol y bu'r Gwasanaeth yn cymryd rhan ynddynt:

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, cynhaliwyd digwyddiad pentref diogelwch cymunedol fel rhan o Her Diffoddwyr Tân Cymru ddydd Sadwrn, 07 Mehefin 2025 yn Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe, a bu'n gyfle i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd ar amrywiaeth o bynciau. Roedd presenoldeb da yn y digwyddiad gan arwain at dros 400 o ymgysylltiadau ag aelodau o'r cyhoedd, 40 cwis i blant wedi'u cwblhau, a bagiau pethau da wedi'u dosbarthu lle mai Diogelwch Trydan oedd y thema.

Cynhaliwyd gweithdy Tueddiadau Troseddau Cysylltiedig â'r Ieuenctid ddydd Mawrth, 10 Chwefror 2026 gan y Gwasanaeth, ochr yn ochr ag asiantaethau partner ledled y rhanbarth, ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn Stadiwm Swansea.com. Daeth cyfraniadau drwy gydol y dydd gan Heddlu De Cymru, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Uned Ddiogel Hillside, Cyngor Caerdydd a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan ymdrin â chanllawiau mewn ysgolion, atal trais, a dealltwriaeth go iawn am brofiadau pobl ifanc.
Roedd y digwyddiad yn gyfle perffaith i asiantaethau partner drafod a hyrwyddo arferion gorau o ran sut i gadw cymunedau'n ddiogel.

Daeth y Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Adnoddau yn Swyddog Arweiniol ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan, sy'n ceisio cynyddu'r cydweithio ar seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus, trwy ymchwilio, dadansoddi a pharatoi deunyddiau sy'n rhoi golwg fanwl ar y cyfleoedd a'r rhwystrau sydd ynghlwm â Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan.

Parhawyd i ddarparu cymorth i sawl un o is-grwpiau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys Gweithgor Tlodi BGC Sir Benfro, Grŵp Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad BGC Powys, Grŵp Llywio Dinas Hawliau Dynol BGC Abertawe, grŵp data rhanbarthol Bae Abertawe a Grŵp Llywio BGC Castell-nedd Port Talbot ymhlith eraill.

Atodiad 2 - Asesiad Perfformiad Blynyddol 2025/2026 - Diweddariad cynnydd ar y galluogwyr.

Ein Pobl. Rydym ni'n cydnabod mai ein pobl yw calon ein sefydliad a'u bod yn allweddol er mwyn cyflawni popeth rydym ni'n ei wneud yn llwyddiannus. Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, ac yn eu hysbrydoli a'u hannog i fod y gorau y gallant fod. Bydd y Gwasanaeth yn cefnogi ein pobl gyda'u hiechyd a'u llesiant er mwyn sicrhau bod ganddynt y gwydnwch personol sydd ei angen arnyn nhw i gyflawni eu rôl.

Datganiad cynnydd.

Mae'r bobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli i ni yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau. Gan gydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr, rydym am sicrhau bod gan ein staff yr offer a'r hyfforddiant i allu cyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu a'u hannog i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae recriwtio, datblygu, a chadw gweithlu hynod o fedrus, dwyieithog ac amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn hynod bwysig i ni. Roedd y dull hwn yn nodi ac yn gwneud y mwyaf o botensial ein gweithlu ac yn cynnal diwylliant sy'n perfformio'n dda, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

Bu iechyd a llesiant ein staff, ers nifer o flynyddoedd, yn faes blaenoriaeth i ni, gan ein bod yn cydnabod bod llawer o fuddion i gael gweithlu iach. Ein nod yw gwneud yr hyn a allwn i helpu ein staff i fwynhau bywydau hirach, iachach a bodlon, gan leihau ein lefelau salwch ar yr un pryd.

Rydym am i staff gael yr hyder a'r lle i dyfu a datblygu, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial a chyrraedd eu nodau o ran gyrfa. Mae darparu cyfleoedd datblygu i staff nid yn unig yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ymgymryd â'u rôl, ond hefyd yn creu amgylchedd lle mae staff yn cael eu grymuso a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Gwasanaeth yn ehangach.

Arweinyddiaeth a Rheoli: Llywodraethiant, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus. Rydym yn darparu arweinyddiaeth a rheoli effeithiol sy'n rhagweithiol ac yn ein galluogi i addasu'n llwyddiannus i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, bygythiadau posibl, a heriau. Rydym ni'n atebol am y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud. Mae llywodraethiant da a gwneud penderfyniadau cyfrifol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau i'n cymunedau.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Rydym yn cydnabod nad yw atebolrwydd yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb yn unig – mae'n cynnwys ymrwymo i set o weithredoedd, agweddau, dyheadau, a disgwyliadau sy'n pennu sut rydym yn arwain ac yn rheoli, y gwerth y gallwn ei ychwanegu at ein gwasanaeth presennol, ac ysgogi unrhyw arloesi yr ydym yn dymuno ymgymryd ag ef.

Datganiad cynnydd.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol; bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon, effeithiol a theg.

Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan roi ystyriaeth i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thegwch. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, a gynlluniwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf i'r saith nod llesiant cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy.

O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sefydlwyd hefyd fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad llywodraeth leol, gan gynnwys darparu polisi aml-leoliad ar gyfer cyfarfodydd.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau'r Awdurdod Tân a'i Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant gwaith yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â stiwardiaeth o'r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod Tân, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn darparu ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi'r Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod Tân, yn unol ag egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

Mae'r gwaith o reoli a chyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan Swyddogion y Gwasanaeth Tân dan reolaeth ac arweiniad cyffredinol y Prif Swyddog Tân, sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith llywodraethiant a phenderfyniadau'r Awdurdod Tân a'i Bwyllgorau. Wrth wneud hynny, mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gynorthwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Mae fframweithiau llywodraethiant cadarn yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a gwelliant parhaus. Rydym yn adolygu ein perfformiad yn rheolaidd yn erbyn Amcanion Gwelliant a Llesiant ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliad i sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn ymatebol ac yn effeithiol.

Gwydnwch Ariannol. Fel gydag unrhyw sefydliad, mae cynaliadwyedd ariannol yn allweddol i lwyddiant hirdymor. Er ein bod yn setlo ein cyllideb yn flynyddol, byddwn yn gweithio'n galed i reoli ein cyllideb, ein rhaglen gyfalaf a'n trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau y gallwn gynllunio a darparu Gwasanaeth effeithiol ar gyfer y tymor hwy.

Datganiad cynnydd.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) a gyflwynwyd i aelodau'r Awdurdod yn y Pwyllgor Rheoli Adnoddau ym mis Tachwedd 2024 ac i'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2024 yn cydnabod yn glir yr angen i sicrhau y bydd canlyniad ymgynghoriad CRhRC 2040 yn pennu cyfeiriad strategol a fydd yn ei dro yn pennu'r cynlluniau ariannol a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny. Bydd y cynlluniau hynny'n cael eu llunio i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor byr, canolig a hirdymor yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r sesiynau cynllunio cyllideb gorfforaethol gydag Aelodau, fel rhan o'r broses cynllunio cyllideb flynyddol a phennu cyllideb ac yn defnyddio adborth yr Aelodau i lywio proses y gyllideb.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad CRhRC sy'n cael ei gynnal yn ystod 2025 yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses pennu cyllideb flynyddol ar gyfer 2026/2027 a'r blynyddoedd sydd i ddod. Bydd angen rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion o fewn cyfyngiadau ariannol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Mae hunanreoleiddio ein cyfraniad at lesiant Cymru drwy fesurau amgylcheddol a chymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yn ein Gwasanaeth. Bydd bod yn ecogyfeillgar; hyrwyddo tegwch, amrywiaeth, a chynhwysiant yn y gweithle; rhoi yn ôl i'r gymuned; a sicrhau bod penderfyniadau busnes yn foesegol i gyd yn rhan o edefyn aur ein Gwasanaeth, a byddant yn llywio ein camau gweithredu o ddydd i ddydd yn uniongyrchol.

Datganiad cynnydd.

Rydym ni'n cydnabod y gallwn gael effaith sylweddol ar yr economi a'r amgylchedd ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd foesol ac yn gwneud y mwyaf o'r manteision hyn i'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, gan wella ein cyfraniad at yr economi leol a lleihau costau i gymdeithas ar yr un pryd.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Mae gan bob tân yr awn allan ato gost i bobl, lleoedd, a'n hamgylchedd, felly mae atal, lle bynnag y bo modd, yn flaenoriaeth i ni. Bydd addasu ac arallgyfeirio ein gweithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn well a gwella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau ac yn ymweld â hwy yn helpu i'w gwneud mor ddiogel a llewyrchus â phosibl.

Mae gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yn hynod bwysig i ni, felly, mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid nid yn unig yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, mae hefyd yn well defnydd o arian cyhoeddus ac yn dod â llu o fuddion i'n cymunedau.



Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu. Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu'r offer, y galluoedd, a'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni ein dyheadau strategol. Rydym yn defnyddio technolegau digidol a gwybodaeth i gefnogi darpariaeth ein hochr weithredol a thrawsnewid busnes, a byddwn yn gwella hyn yn barhaus wrth i dechnoleg fwy newydd ddod ar gael. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fanteisio ar ddatrysiadau technoleg ddigidol a gwybodaeth i gyflawni ein hamcanion strategol.

Datganiad cynnydd

Cysyniad Trawsnewid Digidol yn cael ei archwilio, i ddarparu dyheadau ar gyfer paratoi at y dyfodol. Bydd y cysyniad yn symleiddio'r ffordd o weithio i'r Gwasanaeth i wella hygyrchedd, seiberddiogelwch, darparu awtomeiddio prosesau, gwelliannau a gwella ymgysylltu â'r cyhoedd.



Partneriaethau a Chydweithio. Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â sut rydym yn gweithio gydag eraill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau ystyrlon ac effeithiol, a’r angen i ddatblygu a chynnal prosiectau ar y cyd gyda budd-ddeiliaid allweddol. Heb os, gall partneriaethau a chydweithio priodol gefnogi darparu gwell canlyniadau i'n cymunedau, a chwarae rhan wrth ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cost effeithiol, a mwy effeithlon.

Datganiad cynnydd

Mae partneriaethau effeithiol ag unigolion a grwpiau yn ein cymunedau yn hanfodol i gefnogi'r gwaith a wnawn a'n helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae ymgysylltu a rhyngweithio â'r holl unigolion a grwpiau yn rhoi cyfle iddynt helpu i ddylunio a llywio'r gwasanaethau a ddarparwn, yn ogystal â hyrwyddo'r hyn a wnawn a pha asedau a mentrau sydd ar gael yn ein cymunedau lleol.

Mae meithrin perthnasoedd presennol ymhellach, a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau newydd, yn ein galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hasedau er budd pawb, gan wneud y mwyaf o'n heffaith a'n gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn parhau i gryfhau partneriaethau gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu, a mudiadau gwirfoddol. Mae'r cydweithrediadau hyn yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau integredig sy'n mynd i'r afael â risgiau cymunedol cymhleth ac yn gwella canlyniadau i bawb.

Atodiad 3

Straeon newyddion da sy'n tynnu sylw at y gwaith a wnaed gan bob adran, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

<u>Diogelwch Tân Busnesau</u>

- Ddydd Mercher 11 Chwefror, cyflwynodd ein tîm Diogelwch Tân Busnesau Rhanbarth y Gorllewin ddigwyddiad ymgysylltu llwyddiannus yn y Ganolfan Ragoriaeth Forol yn Harbwr Saundersfoot, gan ddod â phum busnes lleol at ei gilydd i gryfhau dealltwriaeth o gyfrifoldebau diogelwch tân. Roedd y sesiwn yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu yn uniongyrchol, gan helpu'r sawl a oedd yn bresennol i fagu hyder wrth fodloni gofynion statudol cyfredol.
- Trwy ddau gyflwyniad addysgiadol, fe wnaeth cydweithwyr dynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch tân, egluro dyletswyddau cyfreithiol perchnogion busnesau, a rhannu camau ymarferol i gynnal cydymffurfiaeth. Dangosodd y digwyddiad ein hymrwymiad parhaus i gefnogi busnesau lleol, gwella ymwybyddiaeth, a hyrwyddo amgylcheddau gwaith mwy diogel ledled y rhanbarth.





- Cyflwynodd tîm Diogelwch Tân Busnesau Rhanbarth y Gorllewin y digwyddiad 'Cysylltu ar Gyfer' yn llwyddiannus yn Neuadd y Frenhines yn Arberth, ar 07 Gorffennaf 2025, gan ganolbwyntio ar gryfhau gweithio cydweithredol ar draws sefydliadau partner. Roedd y digwyddiad yn gyfle pwrpasol i ddod â thimau ynghyd ac atgyfnerthu ymrwymiad cyffredin i feithrin cymunedau mwy diogel a gwydn.
- Roedd cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol, timau Cynllunio at Argyfyngau, Rheoli Adeiladau, Diogelwch Tân Busnesau, a thimau Lleihau Risg Cymunedol yn bresennol, gan gyfrannu at drafodaethau cynhyrchiol ar sut

mae gwasanaethau'n addasu ac yn trawsnewid i ddiwallu anghenion esblygol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.




- Cynhaliwyd digwyddiad Ymgysylltu â Chartrefi Gofal 'Cysylltu ar Gyfer' a oedd yn gyfle gwerthfawr i ailgysylltu â phartneriaid, cryfhau perthnasoedd, a thrafod llwyddiannau a heriau parhaus yn agored. Y cyntaf ymhlith nifer o sesiynau wedi'u cynllunio ar draws Rhanbarth y De, roedd yn gam pwysig tuag at ddull mwy cydgysylltiedig o gydweithio a rhannu gwybodaeth.



Diogelwch Cymunedol

- Cynhaliodd yr adran Bentref Diogelwch fel rhan o Her Diffoddwyr Tân Cymru ddydd Sadwrn, 07 Mehefin ym Marina Abertawe. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gydag ymgysylltu â thros 500 o aelodau'r cyhoedd. Roedd aelodau'r cyhoedd yn gallu cael mynediad at gyngor a gwybodaeth ddiogelwch am ddim gan ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn ogystal â chan amrywiaeth o sefydliadau partner. Ymhlith y sawl a ymunodd â ni ar y diwrnod oedd: Heddlu De Cymru, Gan Bwyll, Guide Dogs Cymru, Specsavers y Mwmbwls, Wales and West Utilities, Sadie's Butterflies, y Groes Goch Brydeinig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Roedd yr adborth cadarnhaol gan y cyhoedd a'r asiantaethau a gymerodd ran yn tynnu sylw at effaith a gwerth y digwyddiad, gyda'r holl asiantaethau a gymerodd ran yn dweud eu bod wedi rhyngweithio'n gadarnhaol â'r cyhoedd.




- Cafodd dau aelod o'r tîm Diogelwch Cymunedol gydnabyddiaeth am eu 'Gwasanaeth Eithriadol i'r Gymuned' a dyfarnwyd Gwobr Uchel Siryf Dyfed 2025 iddyn nhw, yn dilyn eu gweithredoedd wrth gynorthwyo aelod o'r

cyhoedd a oedd yn wynebu heriau iechyd meddwl a llesiant yn ystod ymweliad diogelwch yn y cartref.



- Cafodd aelodau o'r tîm Diogelwch Cymunedol Gydnabyddiaeth Uchel yng ngwobrau'r rhwydwaith cymunedol am eu hymyriad diogelwch dŵr.



- Ym mis Mehefin 2025 cynhaliwyd Parêd Cwblhau Hyfforddiant yng Ngorsafoedd Tân Dyffryn Aman, Blaendulais ac Aber-craf i ddathlu llwyddiannau'r grŵp diweddaraf o Gadetiaid Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC). Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae'r bobl ifanc ymroddedig hyn wedi dysgu ystod eang o sgiliau a thechnegau gwerthfawr trwy hyfforddiant ar faes ymarfer yr Orsaf Dân ac addysg yn yr ystafell ddosbarth.







- Cwblhawyd dros 80% o'n Harchwiliadau Diogelwch yn y Cartref i bobl â ffactorau risg lluosog – gan ddangos pwysigrwydd atgyfeiriadau gan bartneriaid ac ymyriadau wedi'u targedu.
- Cynhaliwyd ail-frandio o'r ymgyrch Hafanau Diogel, gyda fideo pwerus yn cyfeirio cymunedau at ein gorsafoedd am help.
- Mae dros 30,000 o blant ysgol wedi'u cyrraedd, gyda negeseuon diogelwch tân pwysig a sut y gallant ddylanwadu ar eu rhieni.
- Bu'r Rheolwr Lleihau Tanau Bwriadol yn cydweithio â phartneriaid mewn ardaloedd problemus, megis Cwm Elan.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Mae cynlluniau cadetiaid newydd wedi cychwyn ac ar y gweill, ac mae ein gwirfoddolwyr wedi chwarae rhan wrth sicrhau eu llwyddiant.
- Mae aelodau o'r tîm Diogelwch Cymunedol wedi mynychu nifer o archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref heriol.

Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes

- Cynhaliodd y Gwasanaeth ei Seremoni Wobrwyo flynyddol Mwy na Dim ond Tanau ym Mharc y Scarlets yn Llanelli ar 25 Medi 2025. Cyflwynwyd y digwyddiad gan ddarlledwraig y BBC ac S4C, Eleri Sion. Mae'r seremoni yn rhoi diolch ac yn cydnabod ymdrechion, gwaith caled ac ymroddiad rhyfeddol staff y Gwasanaeth a gwirfoddolwyr o bob rhan o ardal y Gwasanaeth.





- Cyflwynwyd digwyddiad ymgysylltu arddull "Gofynnwch Unrhyw Beth", dan arweiniad y Cyfarwyddwyr.
- Sefydlwyd arweinwyr cyfathrebu ar gyfer pob adran, gan adeiladu ar y broses sydd eisoes wedi'i gweithredu o fewn Rhanbarthau.
- Cynhaliwyd adolygiad o Grŵp Llywio Ymgyrchoedd y Gwasanaeth, gyda'r bwriad o ehangu ei gylch gorchwyl i gefnogi cyfathrebu ac ymgysylltu cyson, effeithiol a strategol ar draws y Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Nadolig llwyddiannus yng Nghrymych ar 10 Rhagfyr yng Nghapel y Bedyddwyr Ebeneser, Eglwyswrw.
- Cymeradwywyd a lansiwyd rhaglen newid cyfathrebu mewnol 'Taith Twf a Gwelliant: Rhaglen Newid Ar Draws Ardal y Gwasanaeth'.

Yr Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC)

- Cyhoeddwyd Asesiad Strategol o'r Amgylchedd Allanol wedi'i ddiweddaru.
- Pecyn gwaith Achub Llinell wedi'i gwblhau, gan sicrhau bod galluoedd achub gwell wedi'u lleoli ar draws y Gwasanaeth, gan wella amseroedd ymateb a chynyddu cyflymder ymyriadau.
- Gweithredwyd y system ddata FARDAP yn llwyddiannus ym mis Tachwedd 2025, gan gymryd lle'r System Cofnodi Digwyddiadau flaenorol a darparu llwyfan gwell, wedi'i foderneiddio ar gyfer rheoli data digwyddiadau.
- Parhawyd cynnal cyfarfodydd Cynllunio a Pherfformiad ac Ystadegau Cymru Gyfan gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan nodi arferion gorau a gwersi a ddysgwyd ac archwilio cyfleoedd i weithio'n gydweithredol, lle bo hynny'n bosibl.
- Cynhaliwyd ymgysylltu llwyddiannus mewn sawl digwyddiad yn ystod cyfnod yr haf, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2025, Sioe Sir Benfro, diwrnodau agored gorsafoedd tân, a'r Ffair Aeaf. Roedd y

digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i werthuso darparu gwasanaethau ac ymgynghori â chymunedau lleol.

- Hwylusodd y tîm CRhRC gyfres o weithdai Ystafell Gytbwys a oedd yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd, ac yn benodol tanau gwyllt a llifogydd. Mae Ystafelloedd Cytbwys yn fforymau lle mae budd-ddeiliad amrywiol gyda safbwyntiau, diddordebau a lefelau dylanwad amrywiol yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ac yn gallu cymryd rhan mewn modd ystyrlon. Roedd y gweithdai hyn yn annog deialog agored ac yn sicrhau bod yr holl safbwyntiau perthnasol yn cael eu hystyried. Arweiniodd y sesiynau at ystod o ganlyniadau, a chafodd y rhain eu categoreiddio o dan y themâu Atal, Diogelu, Ymateb ac Adfer.





Yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg

- Cwblhawyd gwaith cymryd mesuriadau staff am wisg gorfforaethol ac mae archeb wedi'i gosod.
- Sefydlwyd Grŵp Rheoli'r Rhestr Eiddo i archwilio gwelliannau ar ôl i'r contract gyda Red Kite ddod i ben. Trwy ymchwil i'r farchnad, nododd y grŵp yr angen am un system o'i dechrau i'w diwedd a fyddai'n integreiddio profi safonol, profi derbynioldeb, a gwiriadau rhestrau eiddo, gyda'r potensial i gymryd lle'r OPS50 presennol a systemau adrodd am ddiffygion. Gan nad oedd ateb parod addas ar gael, penderfynwyd datblygu system bwrpasol yn seiliedig ar fanylebau'r grŵp, gan nodi cam cadarnhaol tuag at reoli cyfarpar mewn modd mwy syml ac effeithlon.
- Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu cynnig ar gyfer ymestyn olrhain cerbydau ar draws y fflyd gyfan. Ers hynny mae cynnig cynhwysfawr wedi'i gynhyrchu, sydd o blaid gweithredu systemau olrhain cerbydau a llyfr log digidol ar raddfa eang. Disgwylir i'r fenter hon wella diogelwch, effeithlonrwydd, cynaliadwyedd ac atebolrwydd yn sylweddol.
- Mae cynnydd wedi'i wneud yn y broses peiriannau 4X4 newydd.
- Cynhaliwyd treial o Gerbydau Tanau Gwyllt sy'n Addas ar gyfer Pob Math o Dir.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud gyda darparu pecynnau maeth i griwiau.
- PPmE wedi'i gyflwyno ar gyfer Offer Gwarchod Personol Aml-Swyddogaeth.
- Mae olrhain cerbydau wedi'i gyflwyno ar draws y fflyd, ac mae bwrw ymlaen bellach â llyfrau log electronig fel y cynlluniwyd y llynedd.
- Mae manyleb ar gyfer cludwyr dŵr gwledig ac unedau cefnogi digwyddiadau wedi'i chynhyrchu i gefnogi gofynion y gwasanaeth.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

- Dilysu Aml-Ffactor wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus.
- Prynwyd gliniaduron newydd i wella galluoedd digidol a chymryd lle'r dyfeisiau nad oeddent yn gydnaws â Windows 11.
- Llwyddodd adleoli staff i adeilad newydd ddod â'r holl staff TGCh ynghyd mewn un lleoliad, gan wella cydweithredu a chyfathrebu. Sefydlwyd derbynfa barhaol hefyd wedi'i staffio, gan ddarparu un pwynt cyswllt hygyrch ar gyfer pob ymholiad, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Risg Gorfforaethol

- Cynhaliwyd ailasesiad y Ddraig Werdd, gyda'r Gwasanaeth yn cadw ei safon Lefel 5. Mae'r dyfarniad yn rhoi sicrwydd da bod gan y Gwasanaeth system reoli amgylcheddol briodol ar waith.
- Dechrau'r prosiect cydgrynhoi'r Asesiad Risg.
- Cwblhawyd archwiliad Rheoli Parhad Busnes, gan nodi unrhyw argymhellion.
- Ffurflen Cofnodi Arbedion Carbon o Filltiredd Cyfarfodydd wedi'i chreu a'i defnyddio mewn cyfarfodydd y Gwasanaeth.

Ystadau

- Cwblhawyd y gwaith i osod y tŷ haf, storfa biniau to gwyrdd, a phlannu yng Ngorsafoedd Tân Dyffryn Aman a Blaendulais.
- Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu prawf cysyniad System Rheoli Adeiladau.
- Sicrhawyd cyllid grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer gosod gwefrwyr Cerbydau Trydan yng Ngorsafoedd Tân Crucywel a'r Trallwng.

Gweithdrefnau Gweithredol a Dysgu (OPAL)

- Prynwyd monitorau tir osgiliadol yn dilyn adborth gan griwiau trwy System Dysgu'r Ochr Weithredol, gan dynnu sylw at eu potensial i wella ymateb yr ochr weithredol, a gwelwyd wedyn eu bod o fudd sylweddol yn ystod digwyddiad tân gwyllt.
- Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol yn dilyn archwiliad allanol diweddar yn asesu integreiddio Egwyddorion Rhyngweithredu'r Gwasanaethau Brys ar y Cyd (JESIP) o fewn y Gwasanaeth.
- Bu ymweliadau â Gwasanaethau Tân ac Achub Surrey, Dorset a Wiltshire, a Chaint i rannu arferion da mewn Dysgu Sefydliadol. Un thema gyson ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub hyn yn Lloegr oedd y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) i gefnogi prosesau, ochr yn ochr â defnydd uwch o raglenni Microsoft presennol. Bydd cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau yn y meysydd hyn yn cael eu harchwilio trwy OPAL.

Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd

- Cymeradwywyd atalyddion mwg i'w cyflwyno ar bob peiriant ymateb cyntaf i gefnogi rheoli llwybrau awyru. Cynhaliwyd gwaith paratoi i asesu trefniadau storio, a disgwylir dechrau cyflwyno hyn ar ôl cwblhau'r gwaith asesu.
- Bwriwyd ymlaen â chaffael a phrynu pibellau dŵr 22mm, canghennau llyfn, a mesuryddion cyfradd llif yn unol ag argymhellion Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru.
- Cynhaliwyd diwrnod technoleg newydd, yn arddangos ystod o gyfarpar a dronau, gan gynnwys y drôn Fotokite.
- Cwblhawyd contract caffael newydd gyda SOS Oxygen Ltd ar gyfer cyflenwi silindrau ocsigen meddygol.
- Mae'r Tîm Hydrantau wedi cyrraedd camau olaf trosglwyddo gwybodaeth am hydrantau o'r system HYDRA bresennol i'r system SC Capture, mewn cydweithrediad ag Airbus.
- Cyhoeddwyd cylchlythyr cyntaf Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd (OEA) gydag adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn.

Caffael a Chontractio

- Cyflwynodd y tîm Caffael ystod o weithgareddau i gryfhau ymgysylltu a chefnogi blaenoriaethau sefydliadol. Cyfrannodd y Pennaeth Caffael at lesiant staff drwy recordio podlediad ar sgamiau rhamant ar y rhyngrwyd gyda'r Tîm Ffitrwydd, a chwarae rhan weithredol yng Ngrŵp Gwaith Teg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Siarter Gwaith Teg.
- Ymgysylltodd y tîm â phartneriaid a budd-ddeiliaid allanol mewn digwyddiadau gan gynnwys Expo Cyflenwyr Busnes Cymru yn Arena Abertawe, yn darparu cyngor i fusnesau bach a chanolig ar gyfleoedd tendro, a digwyddiad Mewnwelediadau i'r Diwydiant yn Ysgol y Strade, yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes caffael a'r Gwasanaeth Tân ehangach.
- Gwellwyd blaengynllunio drwy sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus i gynnal gweithgarwch blwch tywod, er mwyn sicrhau bod manyleb meddalwedd anfon allan yn y dyfodol yn gadarn ac yn addas i'r diben trwy gydol oes y contract.
- Cyflwynwyd rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu cyn tendro ar draws ystod o feysydd y gwasanaeth, gan gynnwys buddion iechyd, draenio, gwresogi a chynnal a chadw arlwyo, gan helpu i sicrhau bod cyflenwyr—yn enwedig busnesau bach a chanolig lleol—mewn sefyllfa dda i gynnig am gyfleoedd yn y dyfodol.
- Cynhaliodd y Pennaeth Caffael ddigwyddiad cangen Gorllewin Cymru'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) yn y Bencadlys a chyflwyno yno, gan arddangos gweithgareddau caffael masnachol y Gwasanaeth. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyfraniadau gan sawl adran a thaith o

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

amgylch yr orsaf, gan dderbyn adborth rhagorol a chefnogi ymgysylltu ehangach â'r gymuned.

Adnoddau Dynol (AD)

- Daeth yr ymarfer caffael am Gadeirydd Annibynnol o'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i ben 04 Ebrill 2025. Roedd Craven Advisory Services yn llwyddiannus a byddant yn cychwyn yn y swydd o 01 Awst 2025.
- Cyflwynwyd hyfforddiant Addasiadau Rhesymol i reolwyr ar sail wirfoddol, gan gefnogi cynnydd mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion cynhwysol. Datblygwyd cynnig hefyd i wneud yr hyfforddiant hwn yn elfen orfodol o lwybrau gyrfa ar gyfer pob gweithiwr sy'n cael ei ddyrchafu i rolau rheoli, gan gryfhau ymrwymiad y Gwasanaeth i gydraddoldeb a chefnogaeth i staff.
- Cyflwynwyd cynefino digidol yn llwyddiannus i ddechreuwyr Ar Alwad ac amser cyflawn. Mae'r broses newydd wedi gwella effeithlonrwydd a lleihau amser gweinyddol, er bod rhai heriau wedi'u nodi ac yn cael sylw i optimeiddio'r system ymhellach.
- Gwnaed cynnydd hefyd gyda'r modiwl treuliau. Trefnwyd hyfforddiant a'i gyflwyno i ystod o orsafoedd a rolau, gan gefnogi'r pontio i broses treuliau ddigidol fwy modern, fwy syml a hawdd ei defnyddio.
- Cymeradwywyd penodi Cynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant a dechreuwyd proses recriwtio gyda chefnogaeth Insync Corporate Healthcare Limited.
- Cyhoeddwyd manyleb caffael Buddion Iechyd a threfnwyd cyflwyniadau gyda sawl darpar gyflenwr fel rhan o broses gaffael agored.
- Cynhaliwyd ymarfer i ddigideiddio ffeiliau Cofnodion Personol ac Iechyd Galwedigaethol y Gwasanaeth i gefnogi'r strategaeth ddigideiddio a galluogi ffyrdd mwy ystwyth o weithio a chael mynediad at wybodaeth.
- Cynhaliwyd gwaith archwiliadol i nodi System Olrhain Ymgeiswyr addas i integreiddio'r system AD/Cyflogres a galluogi e-recriwtio. Nodwyd dau ateb posibl.

Rheoli Tân ar y Cyd (JFC)

- Ym mis Mai 2025, cafodd y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n gyfrifol am ddelio â galwadau brys ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, alwad gan deulu o Ffrainc a oedd mewn trallod.
- Diolch i'r cydweithio esmwyth rhwng Diffoddwr Tân yr Ystafell Reoli, Chris Morris, a'r Rheolwr Criw, Caroline Hughes, bu modd i'r tîm ymateb yn gyflym ac yn effeithiol. Roedd Caroline, sy'n siarad Ffrangeg yn rhugl, yn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol â'r galwr a chanfu bod y plentyn wedi cael archoll ar ei ben.



Rhanbarth y Gogledd

- Ddydd Mawrth 13 Mai, cwblhaodd aelodau criw o Orsaf Dân Aberystwyth ymarfer hyfforddi Achub â Rhaffau Lefel Dau yn Nhrwyn y Castell, gan gryfhau eu gallu i ymateb i ddigwyddiadau ar uchder. Roedd y sesiwn yn cynnwys ystod o senarios efelychiedig a oedd yn gofyn am ollwng a chodi pobl ag anafiadau gan ddefnyddio systemau rhaffau, gan alluogi criwiau i sefydlu pwyntiau angor a datblygu eu sgiliau technegol, datrys problemau a chyfathrebu ymhellach.





- Agorwyd gardd gymunedol yng Ngorsaf Dân y Trallwng ym mis Chwefror.
- Roedd y prosiect, a ddechreuodd ym mis Mehefin 2025, yn ymdrech ar y cyd a oedd yn cynnwys Diffoddwyr Tân y Trallwng, Rheolwr Cynaliadwyedd y Gwasanaeth, Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru, a Cadwch Gymru'n Daclus, a gefnogodd drefnu, cynllunio ac adeiladu'r ardd. Chwaraeodd y gymuned leol ran allweddol hefyd wrth sefydlu'r ardd, gyda phreswylwyr Neuadd Maldwyn, datblygiad byw â chymorth gyferbyn â'r Orsaf Dân, yn cyfrannu at y plannu.
- Ar 05 Ebrill, bu aelodau o glwb rhedeg lleol yn ymweld â Gorsaf Dân Llanfair-ym-Muallt i dderbyn hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol gan Achub Bywyd Cymru.
- Bu Rhanbarth y Gogledd yn gweithio mewn partneriaeth â thîm Datblygu Pobl Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i wella arweinyddiaeth ar draws y ddau sefydliad. Archwiliodd gweithdy cychwynnol, a gynhaliwyd ar 12 Mai o'r enw "Rhannu Arferion Gorau," y cysyniad "20%", yn seiliedig ar yr egwyddor bod 20% o weithgareddau yn cynhyrchu 80% o'r adenillion ar fuddsoddiadau.
- Cynhaliodd Gorsaf Dân Aberystwyth farbeciw i deuluoedd ar 26 Gorffennaf a diwrnod agored ar 02 Awst, gan godi arian ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân a thîm rygbi cadair olwyn lleol.
- Ddydd Mercher 21 Mai, cynhaliodd Gorsaf Dân Crughywel ddigwyddiad Gwerthfawrogi Teuluoedd a Chriwiau yn ystod eu noson ymarfer, gan groesawu teulu a ffrindiau i gydnabod ymroddiad ac ymrwymiad aelodau criw. Roedd y noson yn cynnwys parêd ffurfiol ac yna cyflwyniad yn cydnabod y gefnogaeth hanfodol a ddarperir gan deuluoedd, gyda thystysgrifau wedi'u

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

cyflwyno wrth werthfawrogi eu dealltwriaeth a'u cyfraniad parhaus at y Gwasanaeth.





Rhanbarth y De

- Cyflwynodd Gorsaf Dân Treforys Ystafell Les newydd ym mis Ebrill, gan ddarparu gofod tawel a phwrpasol i aelodau criw adfyfyrio, ymlacio ac adfer ar ôl digwyddiadau. Wedi'i lansio i gyd-fynd â Mis Ymwybyddiaeth Straen, mae'r fenter yn dangos ymrwymiad parhaus i gefnogi iechyd meddwl a llesiant personél.
- Mae'r Ystafell Les hefyd wedi gwella cyfleusterau ar gyfer staff Ar Alwad, gan gynnig man tawel ar gyfer gorffwys a darllen pan fyddant yn cefnogi criwiau amser cyflawn ar fyr rybudd. Mae'r datblygiad hwn wedi cryfhau trefniadau cymorth lles ar draws yr orsaf ac yn cyfrannu at gynnal gweithlu gwydn a pharod.





- Bu staff o'r Gwasanaeth yn bresennol yn Pride Abertawe ddydd Sadwrn 17 Mai, gan gefnogi diwrnod bywiog o ddathlu a ddaeth â chymunedau at ei gilydd i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant. Darparodd y Tîm Diogelwch Cymunedol gyngor a gwybodaeth ddiogelwch ochr yn ochr ag injan dân wedi'i lapio mewn lliwiau Pride, ac roedd masgot y Gwasanaeth, Sbarc, hefyd yn bresennol. Darparodd y digwyddiad gyfle cadarnhaol i gysylltu â'r gymuned, hyrwyddo negeseuon diogelwch allweddol, a dangos ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i gynhwysiant.





- Ddydd Iau, 17 Gorffennaf, ymunodd criwiau o Orsaf Dân Glyn-nedd â Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed-Powys, Tîm Achub Mynydd y Bannau Canolog a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Diwrnod Diogelwch Dŵr yn ardal Rhaeadrau Glyn-nedd. Roedd y digwyddiad aml-asiantaeth hwn yn gyfle gwych i aelodau'r cyhoedd wylio achub dŵr yn cael ei arddangos yn ogystal â chael gwybodaeth am ddiogelwch a siarad â'r Gwasanaethau partner.





Rhanbarth y Gorllewin

- Ddydd Mercher 29 Ebrill, cyflwynodd criwiau o Orsafoedd Tân Hwlffordd ac Aberdaugleddau Ymarfer 'Barcud Coch' yn llwyddiannus ym Maes Awyr Llwynhelyg, gan wella parodrwydd gweithredol ar gyfer digwyddiadau mewn amgylcheddau cymhleth. Bu'r ymarfer yn darparu lleoliad realistig i griwiau ymarfer ymatebion achub cydgysylltiedig, datblygu sgiliau rheoli digwyddiadau, a chryfhau gwaith tîm ar draws gwahanol unedau'r ochr weithredol.





- Ddydd Gwener, 20 Mehefin, croesawodd y Gwasanaeth Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg, Diana Stroia, Uchel Siryf Dyfed, Ann Jones DL, ac Uchel Siryf Powys, Sally Roberts, ar gyfer ymweliad blynyddol â Phencadlys y Gwasanaeth a Gorsaf Dân Caerfyrddin.






Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Ddydd Sadwrn 28 Mehefin, cynhaliodd Gorsaf Dân Crymych ddigwyddiad golchi ceir elusennol llwyddiannus, gan godi'r swm trawiadol o £1,500 i gefnogi tri achos gwych: Elusen y Diffoddwyr Tân, Ambiwlans Awyr Cymru a Jig-So. Cafodd y digwyddiad gefnogaeth wych gan y gymuned leol, gyda ffrindiau, teuluoedd a phreswylwyr yn dod yn llu i gael eu cerbydau wedi'u glanhau ar gyfer yr achos ystyrlon hwn.



Darparu Hyfforddiant

- Ddydd Iau 5 Mawrth, cynhaliodd Hyfforddiant a Datblygu Ddiwrnod Profiad Menywod cyntaf y flwyddyn y Gwasanaeth, gan ddarparu cyfle cadarnhaol a diddorol i ysbrydoli recriwtiaid posibl yn y dyfodol. Daeth y digwyddiad â chyfranogwyr ledled yr ardal ynghyd i ddysgu mwy am yrfaoedd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a chael mewnwelediad i'r ystod eang o rolau sydd ar gael.
- Trwy gydol y dydd, cymerodd y sawl a oedd yn bresennol ran mewn sesiynau rhoi gwybodaeth yn cwmpasu llwybrau gyrfa, gofynion ffitrwydd diffoddwyr tân, a rôl staff cefnogol, ochr yn ochr â gweithgareddau ymarferol gan gynnwys ymarferiadau ysgol a thrin cyfarpar. Roedd y digwyddiad yn rhan o raglen ehangach o Ddiwrnodau Profiad gyda'r nod o annog mwy o bobl i ystyried gyrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gefnogi ymdrechion parhaus i feithrin gweithlu mwy cynhwysol ac amrywiol.





- Derbyniwyd cyllid ar gyfer adeiladu Rigiau Mapio Dŵr.
- Bwriodd y Gwasanaeth ymlaen â menter gydweithredol gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i ddatblygu Rhaglen Gradd Israddedig Arweinyddiaeth a Diffodd Tân, a gyflwynir gan y Brifysgol. Fel rhan o'r rhaglen beilot hon, cyflogwyd myfyrwyr ar gontract Ar Alwad a gweithiasant

drwy'r llwybr datblygu cymhwysedd ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.

Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol

- Cynhaliwyd Diwrnod Dysgu Digidol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn annog staff i archwilio a chroesawu defnyddio technoleg o fewn dysgu a datblygu. Yn ystod y digwyddiad, dangoswyd senarios Rheoli Digwyddiadau ymdrochol, gan arddangos sut mae offer arloesol megis Adobe a Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn cael eu defnyddio i wella a moderneiddio dulliau hyfforddi ar draws y Gwasanaeth.
- Roedd Penaethiaid Adran yn bresennol mewn sesiynau gyda Datblygu Pobl a Datblygu Sefydliadol i drafod safoni dull arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle gwerthfawr i rannu syniadau ac adolygu'r cynnydd wrth ddatblygu strategaeth arweinyddiaeth gyson ac effeithiol.
- Hwyluswyd arholiad technegol Rheolwyr Canol ym mis Ebrill gyda phum ymgeisydd yn llwyddiannus.
- Cyflwynwyd hyfforddiant camymddwyn a disgyblaeth Llywodraeth Cymru i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth.
- Parhaodd y gwaith gydag One Step North, gan ganolbwyntio ar archwilio datblygiadau technolegol ym maes hyfforddiant a datblygu.
- Cynhaliwyd ymweliad â Phrifysgol Abertawe i archwilio'r defnydd o realiti estynedig mewn senarios dysgu ac i gael gwell dealltwriaeth o'r dechnoleg sy'n sail i hyn.

Straeon 'newyddion da' eraill.

- Ddydd Sadwrn 13 Medi, arweiniodd y Diffoddwr Tân, Rhys Fitzgerald, dîm o chwe diffoddwr tân i ymgymryd â'r her o ddringo Ben Nevis. Llwyddodd Rhys, ynghyd â phump o'i gydweithwyr yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, i ddringo i'r copa mewn cit diffodd tân llawn, gan ddangos eu cryfder, eu gwydnwch a'u hundod anhygoel. Ymdrech oedd hon er cof am ddiffoddwyr tân sydd wedi rhoi eu bywydau wrth wasanaethu, wrth hefyd godi arian hanfodol ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân. Diolch i'w hymroddiad, cododd y tîm ychydig o dan £1,000 i gefnogi'r elusen.





Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Ymunodd y Gwasanaeth â 17 o Wasanaethau Tân ac Achub eraill o bob cwr o'r DU i ddarparu offer diffodd tân i ddiffoddwyr tân Wcráin a chyflenwi adnoddau hanfodol yn lle'r rhai sydd wedi'u colli yn ystod y gwrthdaro parhaus yn y wlad.
- Cafodd y confoi ei gydlynu gan FIRE AID a'u partneriaid, a'i gefnogi gan Lywodraeth Ei Fawrhydi, a gadawodd y DU ddechrau Ebrill 2025. Dyma'r confoi mwyaf erioed o Wasanaethau Tân ac Achub y DU. Gan deithio trwy Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Pwyl, danfonodd y confoi dros 30 o gerbydau Gwasanaeth Tân ac Achub, gan gario mwy na 15,000 o eitemau o gyfarpar a roddwyd gan wahanol Wasanaethau Tân ac Achub ledled y DU.





- Bu tri aelod o Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn bresennol mewn ymarfer cydweithredol tri diwrnod yn Ardal Hyfforddi Bovington yn Dorset a Wiltshire, gyda'r nod o gryfhau ymateb brys i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â cherbydau arfog. Daeth yr ymarfer â'r Gatrawd Ysgolion Cerbydau Ymladd Arfog (AFVSR) ynghyd ochr yn ochr â gwasanaethau brys sifiliaid cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddarparu cyfle gwerthfawr ar gyfer cydweithio.





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

